
Teitl y cyfarfod: Cyfarfod Bwrdd CNC Diwrnod 1 – Sesiwn Gyhoeddus

Dyddiad y cyfarfod: 16 Tachwedd 2022 **Amser y cyfarfod:** 14.40-16.30

Lleoliad: Cyfarfod Microsoft Teams

Ymunwch ar eich cyfrifiadur, eich ap symudol neu ddyfais eich ystafell

[Cliciwch yma i ymuno â'r cyfarfod](#)

Neu ffoniwch i mewn (sain yn unig)

[+44 29 2105 5545,,929219176#](#)

Amser	Eitem
14.40 (5 munud)	1. Agor y cyfarfod <ul style="list-style-type: none">• Croeso• Datgan buddiannau• Egluro'r dull o gynnal y cyfarfod <p>Noddwr a chyflwynydd: Syr David Henshaw (Cadeirydd)</p> <p>Crynodeb: NODI unrhyw fuddiannau sy'n cael eu datgan.</p>
14.45 (5 munud)	2. Adolygu'r Cofnodion a'r Cofnod Gweithredu 2A. Adolygu Cofnodion Cyfarfod Cyhoeddus 22 Medi 2B. Adolygu'r Cofnod Gweithredu Cyhoeddus <p>Noddwr a Chyflwynydd: Syr David Henshaw (Cadeirydd)</p> <p>CYMERADWYD cofnodion y cyfarfod blaenorol a'r cofnod gweithredu.</p>
14.50 (5 munud)	3. Diweddarriad gan y Cadeirydd <p>Noddwr a Chyflwynydd: Syr David Henshaw</p> <p>Crynodeb: NODI diweddarriad y Cadeirydd i'r Bwrdd.</p>
14.55 (15 munud)	4. Adroddiad gan y Prif Weithredwr <p>Noddwr a Chyflwynydd: Clare Pillman, Prif Weithredwr</p> <p>Crynodeb: NODI'r sefyllfa gyfredol a diweddarau'r Bwrdd ar weithgareddau allweddol.</p> <p>Cyf. Papur: 22-11-B05</p>

15.10 (15 munud)	5. Adroddiad Diweddar u'r Pwyllgorau Noddwyr a chyflwynwyr: Cadeiryddion Pwyllgor
-----------------------------------	---

Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg – Dim cyfarfod wedi'i gynnal
Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth – 17 Hydref

Cyf. Papur: 22-11-B06

Pwyllgor Cyllid – Dim cyfarfod wedi'i gynnal

Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd – 21 Hydref

Cyf. Papur: 22-11-B07

Pwyllgor Pobl a Thaliadau – Dim cyfarfod wedi'i gynnal

Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig – 6 Hydref

Cyf. Papur: 22-11-B08

Fforwm Rheoli Tir Cymru – 5 Medi ac 17 Hydref

Cyf. Papur: 22-11-B09

**Crynodeb: NODI'r diweddariadau gan bwyllgorau'r Bwrdd,
o fewn a thu allan i unrhyw gyfarfodydd a gynhaliwyd.**

15.25 (15 munud)	6. Adroddiad Perfformiad Ariannol Noddwr: Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol Cyflwynydd: Rob Bell, Pennaeth Cyllid Crynodeb: NODI'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf Cyf. Papur: 22-11-B10
-----------------------------------	--

15.40 (15 munud)	Egwyl
-----------------------------------	--------------

15.55 (20 munud)	7. Adroddiad Chwarter 2 y Dangosfwrdd Perfformiad Cynllun Busnes Noddwr a Chyflwynydd: Clare Pillman, Prif Weithredwr Yn bresennol: Caroline Hawkins, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad ac Asesu Strategol, Sarah Williams, Pennaeth y Strategaeth Gorfforaethol a'r Swyddfa Rheoli Rhagleni; Sue Ginley, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Cynllunio Corfforaethol a Pherfformiad
-----------------------------------	--

**Crynodeb: CYMERADWYO Adroddiad Chwarter 2 y
Dangosfwrdd Perfformiad Cynllun Busnes**

Cyf. Papur: 22-11-B11

16.15 (15 munud)	8. Adroddiad Chwarter 2 Llesiant, Iechyd a Diogelwch Noddwr: Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol Cyflwynydd: Charlotte Morgan, Rheolwr Llesiant, Iechyd a Diogelwch Crynodeb: CYMERADWYO Adroddiad Chwarter 2 Llesiant, Iechyd a Diogelwch
-----------------------------------	--

Cyf. Papur: 22-11-B12

Cofnodion heb eu cadarnhau

Teitl y cyfarfod:	Cyfarfod Bwrdd CNC – Sesiwn Gyhoeddus Llyfrgell Gladstone, Penarlâg, Sir y Fflint a Microsoft Teams
Dyddiad y cyfarfod:	22 Medi 2022
Aelodau'r Bwrdd a oedd yn bresennol:	Syr David Henshaw, Cadeirydd Clare Pillman, Prif Weithredwr Yr Athro Steve Ormerod, Dirprwy Gadeirydd Karen Balmer Julia Cherrett Geraint Davies Zoë Henderson Yr Athro Calvin Jones Mark McKenna Dr Rosie Plummer Yr Athro Peter Rigby (drwy Teams)
Aelodau o'r Tîm Gweithredol a oedd yn bresennol:	Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnach Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau
Unigolion ychwanegol a oedd yn bresennol:	Colette Fletcher, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd (yr holl eitemau) Charlotte Morgan, Rheolwr Llesiant, Iechyd a Diogelwch, Eitem 6 (Teams) Caroline Hawkins, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad ac Asesu Strategol, Eitem 7 (Teams) Sarah Williams, Pennaeth y Strategaeth Gorfforaethol a'r Swyddfa Rheoli Rhaglenni, Eitem 7 Ieuan Williams, Uwch Syrfêwr Arbenigol, Eitem 8 Dominic Driver, Pennaeth Stiwardiaeth Tir, Eitemau 8 a 9 Chris Collins, Pennaeth Gwybodaeth a Thystiolaeth, Eitem 11 Alun Attwood, Rheolwr Monitro ac Adrodd, Eitem 11
Arsylwyr CNC:	Lyndsey Rawlinson, Pennaeth Gweithrediadau Gogledd-ddwyrain Cymru (yr holl eitemau) Kate Evans, Materion Cyhoeddus ac Ysgrifennydd Preifat (yr holl eitemau) Sarah Williams, Pennaeth y Strategaeth Gorfforaethol a'r Swyddfa Rheoli Rhaglenni (yr holl eitemau) Victoria Painter, Rheolwr Llywodraethu a Risg (yr holl eitemau)

Arsylwyr Cyhoeddus:	Kim Waters, Undeb Afonydd Cymru Rachel Evans, Y Gynghraig Cefn Gwlad Dr Rachel Hodson, Cangen Iechyd Planhigion a Diogelu'r Amgylchedd, Llywodraeth Cymru Cledan Evans, Cangen Iechyd Planhigion a Diogelu'r Amgylchedd, Llywodraeth Cymru Aelodau ychwanegol o'r cyhoedd
Datganiadau:	<ul style="list-style-type: none"> • Dr Rosie Plummer – Aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro lle mae cyfrifoldeb cynllunio yn cynnwys dalgylch afon ACA Cleddau, parthau perygl o lifogydd, a chylch gwaith sy'n fwy nag 80 o ddynodiadau safle penodol o fewn ei ddynodiad tirwedd cyffredinol. • Ymddiriedolwr Plantlife – Mae Plantlife yn gydweithredwr ar brosiect Natur am Byth. • Yr Athro Steve Ormerod – Aelod o ddwy Ymddiriedolaeth Natur Cymru (dim dylanwad ar bolisi); Is-lywydd yr RSPB (dim dylanwad ar bolisi); Cymrawd Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol (dim dylanwad ar bolisi); Diddordeb ymchwil wyddonol mewn ansawdd dŵr trwy Brifysgol Caerdydd • Zoe Henderson – Aelod (dim dylanwad ar bolisi): Y Gynghraig Cefn Gwlad; Ymddiriedolaeth Cadwraeth Helwriaeth a Bywyd Gwyllt; Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru • Clare Pillman – Cartref o fewn ffiniau'r Parc Cenedlaethol newydd arfaethedig (yn ymwneud ag eitem 6 ar yr agenda) • Syr David Henshaw – Cartref o fewn ffiniau'r Parc Cenedlaethol newydd arfaethedig (yn ymwneud ag eitem 6 ar yr agenda) • Yr Athro Calvin Jones – Aelod Pwyllgor Llywio Skyline • Geraint Davies – Aelod (dim dylanwad ar bolisi): RSPB Cymru; Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol; Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru; Undeb Amaethwyr Cymru; Ymddiriedolaeth Cadwraeth Helwriaeth a Bywyd Gwyllt
Ymddiheuriadau:	Catherine Brown
Ysgrifenyddiaeth:	Jocelyn Benger Natalie Williams Andrea Bennett
Eitem 1. Cyfarfod Agored	
<ol style="list-style-type: none"> 1. Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chroesawodd bawb. Gwnaed datganiadau o ddiddordeb ac ymddiheuriadau fel y nodir uchod. Roedd y Cadeirydd wedi mynychu angladd y Frenhines ddydd Llun ac wedi cydymdeimlo ar ran CNC ar farwolaeth Ei Mawrhydi. Eglurwyd bod y papurau wedi'u cyhoeddi'n hwyr oherwydd bod cyfathrebu allanol wedi'i ohirio yn ystod y cyfnod o alaru cenedlaethol. 2. Eglurwyd ymddygiad y cyfarfod. Roedd opsiynau eraill yn cael eu hystyried ar gyfer gwella ymgysylltiad y cyhoedd â'r Bwrdd gan y cydnabuwyd bod y sesiwn Holi ac Ateb gyhoeddus yn dilyn cyfarfod cyhoeddus y Bwrdd yn gyfyngedig. Roedd eitem ar y mater hwn wedi'i chynnwys ar yr agenda. 	

- Gofynnwyd i'r Bwrdd godi unrhyw faterion gyda'r papurau i'w hadolygu drwy bapurau gohebiaeth. Ni chodwyd unrhyw sylwadau.

Eitem 2. Adolygu'r Cofnodion a'r Cofnod Gweithredu

2A. Adolygu Cofnodion y Cyfarfod Cyhoeddus a gynhaliwyd 14 Gorffennaf

- Adolygwyd y cofnodion o gyfarfod cyhoeddus 14 Gorffennaf a chytunwyd arnynt.

2B. Adolygu'r Cofnod Gweithredu Cyhoeddus

- Adolygwyd a nodwyd y cofnod gweithredu.
- Cynigiodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau y dylid cau Cam Gweithredu 2 gan fod y cam gweithredu brys wedi cael ei ddatrys, ac roedd y mater hwn wedi'i gynnwys yn y mesurau perfformiad. Cytunwyd i gau'r cam gweithredu hwn.
- Tynnwyd sylw at y ffaith nad oedd y fersiynau a gadarnhawyd o gofnodion y Bwrdd wedi'u cyhoeddi ar y wefan. Ymddiheurodd y Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd am y diffyg a chadarnhaodd y byddai hyn yn cael ei adolygu a'i ddatrys.

Eitem 3: Diweddarriad gan y Cadeirydd

- Cynhaliwyd gweithdy i'r Bwrdd ar yr agenda strategol. Roedd y Cynllun Corfforaethol newydd yn cael ei ddatblygu drwy'r broses weithredol a didorol hon ac roedd wedi arwain at sgyrsiau cyfoethog ar yr heriau hinsawdd a natur. Byddai'r Cynllun Corfforaethol newydd yn cael ei gyhoeddi maes o law.
- Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddarriad byr ar y trafodaethau a oedd yn cael eu cynnal ar amrywiaeth eang o faterion.

Eitem 4: Adroddiad gan y Prif Weithredwr

- Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddarriad ar yr adroddiad ysgrifenedig.
- Roedd sychder wedi'i gyhoeddi ar draws Cymru gyfan yn gynharach y mis hwn, gyda chyfres o fesurau'n cael eu cyflwyno yn sgil hyn. Er gwaethaf y glaw diweddar, roedd yr amodau'n sych iawn o hyd, gyda lefelau cronfeydd dŵr isel. Roedd CNC yn parhau i weithio gyda chwmnïau dŵr ac eraill a oedd yn tynnu dŵr. Roedd pryderon, pe bai gaeaf sych, yna y byddai'r flwyddyn nesaf yn dechrau gyda lefelau dŵr isel iawn. Roedd y sychder wedi arwain at nifer o ddigwyddiadau tywydd sych a dŵr wyneb, ac roedd timau CNC wedi bod yn delio â materion llygredd a llifogydd dŵr wyneb.
- Rhoddwyd diweddarriad ar ffliw adar. Cafwyd adroddiadau am ddirywiad rhai rhywogaethau allweddol, ac roedd CNC yn gweithio'n agos gyda'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion, Cyrff Anllywodraethol Amgylcheddol ac eraill.
- Roedd dwy Gynhadledd y Partïon (COPs) i fod i ddigwydd yr hydref hwn yn yr Aifft a Montreal. Roedd CNC yn gweithio gyda chwaer sefydliadau yn Lloegr a'r Alban i baratoi ar gyfer hyn a byddent yn mynychu digwyddiad yn Llundain 23 Tachwedd. Byddai hyn yn dod â'r cyrff cadwraeth natur statudol ynghyd, gyda'r nod o barhau â momentwm y COP blaenorol ynghylch y neges ar Natur Bositif.

14. Byddai cynulliad gyda'r Prif Weinidog ac eraill i drafod effaith yr argyfwng costau byw yng Nghymru. Roedd CNC yn sicrhau bod staff yn cael eu cyfeirio at gymorth a chyngor ar y mater hwn.
15. Cafwyd hysbysiad gan Lywodraeth Cymru (LIC) ar ddiwygiadau i gyfrifoldebau gweinidogol. Byddai newidiadau i bortffolio'r Weinyddiaeth Newid Hinsawdd. Yn fwyaf nodedig byddai Lesley Griffiths yn cymryd y cyfrifoldeb am nifer o feysydd allweddol CNC a rhannwyd y rhain gyda'r Bwrdd. Byddai cyfrifoldeb digidol yn cael ei drosglwyddo i Vaughan Gething a byddai Lee Waters yn canolbwytio ar drafnidiaeth ar hyn o bryd. Byddai Julie James yn parhau i arwain ar CNC.
16. Rhoddodd yr Athro Steve Ormerod ddiweddu i ychwanegol ar sefyllfa ffliw adar yng Nghymru. Roedd arwyddion gan nythfeydd bod miloedd o adar wedi cael eu heffeithio ac roedd dosbarthiad yr adar marw o'r digwyddiad hwn yn golygu bod y cyhoedd yn ymwybodol iawn o'r sefyllfa ddifrifol. Cyfyngwyd ar weithgarwch gwyddonol, fel modrwyd adar, er bod hyn wedi arwain at rai anawsterau wrth fonitro'r sefyllfa. Roedd y Cyd-gyngor Gwarchod Natur (JNCC) yn monitro adroddiadau o bedair gwlad y DU. Darparwyd gwybodaeth ychwanegol hefyd ar y sefyllfa o sychder. Roedd rhywfaint o dystiolaeth wyddonol y gallai fod cyfnodau o sychder dros sawl blwyddyn, felly byddai'n hollbwysig parhau i reoli adnoddau dŵr. Roedd y sychder wedi datgelu data diddorol yn dilyn ymchwiliadau gwyddonol ar faint o nwyddau fferyllol a ganfuwyd mewn afonydd a'u heffaith ar ansawdd dŵr.

Item 5: Adroddiadau Diweddar u'r Pwyllgorau

17. Nododd y Cadeirydd mai hwn oedd cyfarfod olaf Catherine Brown o'r Bwrdd a diolchodd iddi ar ran y Bwrdd am ei holl waith caled fel aelod o'r Bwrdd a Chadeirydd y Pwyllgor.
18. Rhoddodd Dr Rosie Plummer, ar ran Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC) y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y cyfarfod a gynhaliwyd 8 Medi. Byddai cofnodion y cyfarfod yn cael eu dosbarthu i holl aelodau'r Bwrdd. Bu'r ARAC yn craffu ar y gwariant o £2.6m ar y System Rheoli Gwybodaeth Labordai (LIMS) na chafodd ei chomisiynu, a'r gorwariant a'r gor-redeg perthnasol ar brosiect Twyni Byw. Roedd ARAC yn pryderu bod staff rheng flaen a rheolwyr canol yn wynebu sefyllfa oedd heriol heb gefnogaeth a goruchwyliaeth ddigonol gan Dimau Arwain a Gweithredol. Nodwyd camau myfyrio a dysgu pellach o'r prosiectau hyn i'r Tîm Gweithredol eu datblygu a'u rhannu â'r Bwrdd.
19. Bu ARAC hefyd yn edrych yn fanwl ar y risg o gydymffurfio a daeth i'r casgliad nad oedd y rheolaethau presennol yn cyfiawnhau gostwng y lefel risg bresennol. Nid oedd ARAC yn hyderus y byddai'r rheolaethau arfaethedig yn lleihau'r lefel risg bresennol pe byddent yn cael eu gweithredu. Gofynnwyd am waith pellach i sicrhau dull mwy cadarn o reoli'r risg hon. Derbyniwyd a nodwyd nifer o adroddiadau Archwilio Mewnol. Pwysleisiodd ARAC fod Archwilio Mewnol yn gyfrifol am y farn yn eu hadroddiadau eu hunain ac yn gwneud eu hasesiad eu hunain o risg sefydliadol. Pwysleisiodd ARAC hefyd fod disgwyl i reolwyr ganolbwytio ar eglurder eu hymatebion. Fe wnaeth pawb gydnabod mai dyma oedd cyfarfod ARAC olaf Catherine Brown a mynegwyd eu gwerthfawrogiad o'i gwaith fel Cadeirydd ARAC a dymuno'n dda iddi i'r dyfodol. Yna cynhaliwyd sesiwn gaeedig gyda'r Pennaeth Archwilio Mewnol.
20. Rhoddodd Peter Rigby, fel Cadeirydd y Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth (EAC), y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y gwaith ers y cyfarfod a gynhaliwyd 7 Mehefin.
21. Rhoddodd Syr David Henshaw, fel Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Medi. Roedd hwn wedi bod yn gyfarfod llawn iawn, gan gynnwys rhai trafodaethau heriol. Roedd y gwariant presennol a

chyllideb y dyfodol wedi'u hadolygu a chraffwyd ar yr Adolygiad Strategol o Godi Tâl. Trafodwyd y Cynllun Corfforaethol. Byddai Cadeirydd newydd y Pwyllgor Cyllid yn cael ei benodi unwaith y byddai aelodau newydd y Bwrdd yn eu swyddi.

22. Rhoddodd Julia Cherrett, fel Cadeirydd Dros Dro'r Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd (FRMC), y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y gwaith ers y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Gorffennaf. Cafodd yr FRMC gyfle i adolygu papur Prosiect y System Rhybudd rhag Llifogydd a gafodd ei ystyried yn sesiwn breifat y Bwrdd ddoe. Trefnwyd cyfarfod gyda Chadeirydd y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol. Byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ym mis Hydref.
23. Rhoddodd Julia Cherrett, fel Cadeirydd y Pwyllgor Pobl a Thaliadau (PaRC), y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y cyfarfod a gynhaliwyd 13 Medi. Roedd trosolwg o'r Rhaglen Drawsnewid newydd wedi'i roi, gan gynnwys golwg fanwl ar ddenu a chadw staff ac ymgysylltu â gweithwyr. Roedd PaRC yn falch o weld yr holl drefniadau a oedd wedi'u rhoi ar waith i yrru'r newidiadau yn eu blaenau. Adolygwyd yr Adroddiad Cwynion Blynnyddol. Bu cynnydd bychan yn nifer y cwynion, ond roedd nifer y cwynion i'r Ombwdsmen yn gostwng ac roedd mwy o gwynion yn cael eu datrys yn gynharach. Cymerwyd cam gweithredu i roi adborth i'r Bwrdd ar wersi a ddysgwyd ar gwynion. Awgrymwyd y gellid cynnwys hyn fel rhan o'r Dangosfwrdd Perfformiad yn y dyfodol. Adolygwyd y Wybodaeth Reoli gan gynnwys niferoedd staff. Byddai angen gwneud rhagor o waith wrth ymdrin â Phenodiadau Cyfnod Penodol. Nodwyd bod absenoldeb yn parhau i fod yn is na'r meincnod. Darparwyd y diweddariad Llesiant, lechyd a Diogelwch. Adolygwyd y Risg Gallu a Gwerthoedd.
24. Rhoddodd Dr Rosie Plummer, fel Cadeirydd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig (PrAC), y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y gwaith ers y cyfarfod a gynhaliwyd 21 Mehefin. Roedd y manylion wedi'u cynnwys yn y papur. Cynhelir y cyfarfod nesaf 6 Hydref. Nodwyd y newid mewn cyfrifoldeb Gweinidogol am y dynodiad parc cenedlaethol newydd posibl.
25. Rhoddodd Zoe Henderson, fel Cadeirydd Fforwm Rheoli Tir Cymru (WLMF), y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y cyfarfod a gynhaliwyd 5 Medi. Cymerwyd bod y papur wedi'i ddarllen. Roedd cyfarfod yr is-grŵp ar 19 Medi wedi'i ganslo oherwydd angladd y Frenhines. Roedd is-grŵp, dan arweiniad Chris Mills o Afonydd Cymru, wedi bod yn edrych ar fesurau amgen o fewn y ddeddfwriaeth ar gyfer y rheoliadau dŵr, ynghylch sut y gellid gwella hyn i helpu ffermwyr a'r amgylchedd yn fwy. Byddai adroddiad gan yr is-grŵp yn cael ei gyflwyno gerbron cyfarfod WLMF ym mis Hydref.

Eitem 6: Adroddiad Chwarter 1 Llesiant, lechyd a Diogelwch

Cyflwynydd: Charlotte Morgan, Rheolwr Llesiant, lechyd a Diogelwch

26. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol yr eitem. Roedd Adroddiad Ch1 Llesiant, lechyd a Diogelwch wedi'i drafod gan PaRC yn eu cyfarfod diweddar. Roedd yr Adroddiad yn cynnwys diweddariad ar y ddwy farwolaeth a oedd wedi digwydd yn anffodus ar Ystad CNC. Roedd mwy o waith wedi'i wneud ar y data ac roedd bellach yn cynnwys dadansoddiad o dueddiadau. Roedd angen hwb sefydliadol ar fonitro gweithredol. Roedd PaRC wedi argymhell y dylid adolygu effaith cyrsiau dysgu a datblygu ochr yn ochr â'r ffocws ar bresenoldeb mewn cyrsiau.
27. Rhoddodd y Rheolwr Llesiant, lechyd a Diogelwch drosolwg o'r ddua Adolygiad o Ddigwyddiadau Difrifol (SIRs). Roedd un digwyddiad, a oedd yn ymwneud â gwaith coedwigaeth, wedi'i gwblhau ac roedd gydag aelod o'r Tîm Arwain am sylwadau. Roedd y digwyddiad arall, a ddigwyddodd ym maes parcio Niwbwrch, yn cynnwys tri cham gweithredu. Roedd dau wedi'u cwblhau, ac roedd y llall yn gam gweithredu mwy

hirdymor ynghylch cynnal a chadw'r maes parcio. Darparwyd crynodeb o'r sefyllfa barhaus gyda'r ddwy farwolaeth. Roedd dau ddigwyddiad lle bu angen rhoi adroddiad i RIDDOR: roedd adroddiad rhagofalus wedi'i anfon at yr Awdurdod Gweithredol lechyd a Diogelwch (HSE) ynghylch cyfarpar plymio; roedd y llall yn ymwneud â digwyddiad gyda cheffyl yn anafu contractwr CNC ar dir trydydd parti. Byddai ail-achrediad Safon lechyd Corfforaethol o'r wobr arian yn digwydd ym mis Rhagfyr. Roedd CNC wedi ymrwymo i'r Addewid Menopos yn y Gweithle.

28. Ystyriodd aelodau'r Bwrdd gynnwys yr Adroddiad. Trafodwyd y digwyddiadau yn ymwneud ag aelodau o'r cyhoedd. Eglurwyd bod proses SIR bob amser yn cael ei hagor lle ceir achosion trist o farwolaethau, ond ei bod fel arfer yn cael ei gohirio yn ystod ymchwiliadau swyddogol. Byddai'r dysgu wedyn yn digwydd ar ôl cwblhau hyn. Fodd bynnag, cadarnhawyd na fyddai unrhyw waith brys sy'n ofynnol yn yr achosion hyn yn cael ei ohirio.
29. Roedd aelodau'r Bwrdd yn falch o weld y cynnydd yn y Wybodaeth Reoli, a gofynnwyd beth a ddysgwyd o hyn, yn enwedig ynghylch tueddiadau a Methiannau Agos. Eglurodd y Rheolwr Llesiant, lechyd a Diogelwch fod canllawiau wedi'u rhoi i reolwyr ar ddiffiniadau o Ddigwyddiadau a Methiannau Agos, felly roedd disgwyl gweld cynnydd mewn adroddiadau pe byddai'r canllawiau yn effeithiol. Ystyriwyd adroddiadau gan gontactwyr ac roedd canllawiau ar gael iddynt hefyd. Cadarnhawyd bod adroddiadau wedi'u cynnwys yn eu cytundebau gyda CNC.
30. Trafodwyd y digwyddiad gyda'r offer plymio. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau fod hyn wedi'i nodi yn ystod arolygiad ac felly'n cael ei weld fel enghraifft gadarnhaol, y byddai'r HSE yn ei rhaeadru ledled y DU.

WEDI'I GYMERADWYO: Adroddiad Ch1 Llesiant, lechyd a Diogelwch

Eitem 7: Adroddiad Chwarter 1 y Dangosfwrdd Perfformiad Cynllun Busnes

Cyflwynydd: Clare Pillman, Prif Weithredwr

Yn bresennol: Caroline Hawkins, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad ac Asesu Strategol, Sarah Williams, Pennaeth y Strategaeth Gorfforaethol a'r Swyddfa Rheoli Rhaglenni; Dominic Driver, Pennaeth Stiwardiaeth Tir

31. Cyflwynodd y Prif Weithredwr Adroddiad Chwarter 1 y Dangosfwrdd Perfformiad Cynllun Busnes hyd at ddiwedd mis Mehefin. Statws cyffredinol Coch Melyn Gwyrdd (RAG) y mesurau yn y Dangosfwrdd Perfformiad oedd un Coch, un yn amherthnasol, chwech Melyn a 23 Gwyrdd. Roedd y mesurau Perfformiad Mewnol yn cynnwys un Coch, pump Melyn, a phump Gwyrdd.
32. Roedd y mesur Dangosfwrdd Perfformiad Coch yn ymwneud ag achosion o dorri cydymffurfiaeth fel rhan o waith rheoleiddio. Roedd y mesur yn olrhain camau dilynol wedi achosion o dorri cydymffurfiaeth o fewn chwe mis. Roedd tri o'r 13 o doriadau Categori 1 a 2 a nodwyd ar gyfer gwaith cydymffurfio pellach yn parhau i fynd rhagddynt, ac roedd y rhain wedi'u blaenoriaethu i sicrhau bod gweithredwyr yn cymryd camau priodol i gydymffurfio unwaith eto. Roedd perfformiad yn 91% gyda tharged o 95%, ac roedd y tîm yn hyderus o gyrraedd Gwyrdd erbyn diwedd y flwyddyn.
33. Eglurwyd y mesur a nodwyd yn amherthnasol (Amh.). Roedd y mesur hwn yn ymwneud â chefnogi LIC gyda'r Bil Amaethyddiaeth. Roedd amserlen wedi'i phennu yn y Mesur Perfformiad, ond nid oedd hyn wedi ystyried yr oedi cyn i LIC symud ymlaen, a gohiriwyd

cyhoeddi tan yr hydref. Byddai rhagor o fanylion yn cael eu rhannu am hyn ym mis Tachwedd.

34. Roedd chwe mesur yn Felyn yn Ch1. Eglurwyd y mesur 'cynnal asedau mewn perygl o lifogydd mewn lleoliadau risg uchel ar y cyflwr targed'. Roedd hyn yn 97.9% gyda 75 yn is na'r cyflwr gofynnol. Roedd Archwiliad wedi'i gynnal yn ddiweddar yn y maes hwn a byddai adroddiad yn cael ei ddarparu i ARAC a FRMC. Roedd Ceisiadau Camau Unioni UKWAS (CARs) wedi symud i Felyn gan nad oedd hyder llawn eto y byddai'r camau a gymerwyd yn dod i rym. Roedd staff yn paratoi ar gyfer yr archwiliad yn yr hydref a disgwylir iddo fod yn Wyrdd erbyn Ch3. Roedd y gwaith o gyflwyno rhaglenni i adolygu gofynion ansawdd dŵr statudol wedi'i ohirio oherwydd Covid ac yn dal i geisio dal i fyny. Roedd cynllun prosiect diwygiedig yn ei le ac roedd LIC yn ymwybodol o'r dyddiadau cwblhau. Roedd disgwyl iddo fod yn Wyrdd erbyn diwedd y flwyddyn. Roedd gwaith yn mynd rhagddo ar argymhellion yr Adolygiad Llifogydd, a oedd yn bwriadu cau'r rhaglen a symud i Fusnes Fel Arfer (BAU), ond byddai FRMC yn parhau i olrhain cynnydd.
35. Cyflwynwyd y mesurau Perfformiad Mewnol. Nodwyd bod Monitro Gweithredol lechyd a Diogelwch yn Goch, a thynnwyd sylw at y camau sy'n cael eu cymryd yn yr Adroddiad Llesiant, lechyd a Diogelwch. Roedd trafodaethau wedi'u cynnal yn PaRC ar Sgwrs, a gafodd ei raddio'n Felyn. Roedd disgwyl i hyn fod yn Wyrdd erbyn diwedd y flwyddyn. Roedd y perfformiad talu yn Felyn, a oedd ychydig yn is, ond disgwylir iddo fod yn Wyrdd ar ddiwedd y flwyddyn.
36. Ymunodd y Pennaeth Stiwardiaeth Tir â'r cyfarfod i egluro'r oedi gyda CARs UKWAS. Eglurwyd bod un CAR mawr wedi codi yn ymwneud â pholisi wedi dyddio, a oedd wedi'i gau o fewn dyddiau. Roedd un CAR mân yn ymwneud â phecyn cymorth cyntaf wedi dyddio ac roedd y CAR yn ymwneud â chryfhau'r prosesau o amgylch citiau cymorth cyntaf. Roedd hwn bellach wedi'i gau a byddai archwiliad UKWAS ym mis Tachwedd yn cael ei gynnal heb unrhyw CARs agored. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu (EPP) mai'r nod oedd peidio â chael unrhyw CARs mawr neu fach ac felly Melyn oedd y sgôr ar hyn o bryd.
37. Cadarnhaodd Julia Cherrett, fel Cadeirydd dros dro'r FRMC, y byddai'r adroddiadau terfynu ar weithredu argymhellion yr Adolygiad Llifogydd yn cael eu monitro gan y Bwrdd Busnes Llifogydd, gyda'r FRMC yn goruchwyllo. Roedd y dull cadarn o sicrhau bod y camau gweithredu wedi'u hymgorffori'n briodol wedi arwain at fesur Melyn.
38. Argymhellodd y Cadeirydd y dylid cynnwys adroddiad tueddiadau ar y Mesurau Perfformiad er mwyn gallu cymharu ar draws y blynnyddoedd. Gofynnwyd hefyd bod camau olrhain cynnydd y Cynllun Corfforaethol a'r Rhaglen Drawsnewid yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad.

WEDI'I GYMERADWYO: Adroddiad Chwarter 1 y Dangosfwrdd Perfformiad Cynllun Busnes.

Eitem 8: Adolygu Penderfyniad Helfeydd Dilyn Trywydd

Cyflwynwyr: Ieuan Williams, Uwch Syrféwr Arbenigol; Dominic Driver, Pennaeth Stiwardiaeth Tir

39. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu'r eitem. Nodwyd, pan benderfynodd y Bwrdd atal helfeydd dilyn trywydd ar Ystad Coetir Llywodraeth Cymru (YCLIC) am y tro cyntaf, dim ond un ffactor ymhliith nifer a ystyriwyd oedd y diffyg hyder mewn goruchwyliaeth gadarn o'r gweithgaredd, yn dilyn collfarnu Cyfarwyddwr Cymdeithas Meistri'r Cŵn Hela (MFHA) ar y pryd. Roedd y Tîm Gweithredol wedi adolygu manylion yr apêl a chanlyniad yr achos llys, ac wedi dod i'r casgliad bod y gofynion adnoddau i oruchwyllo'r gweithgaredd a barn y Gweinidog ar helfeydd dilyn trywydd yn parhau i fod yn ffactorau arwyddocaol. Roedd y Tîm

Gweithredol wedi ystyried y sefyllfa a'r cyd-destun strategol ac wedi argymhell na ddylid cynnal adolygiad tra bod gwaith ar ddatblygu strategaeth hamdden newydd yn mynd rhagddo. Byddai'r fframwaith a'r strategaeth hamdden yn cynnwys yr holl weithgareddau hamdden ar Ystad CNC a byddent yn cael eu datblygu ar y cyd â rhanddeiliaid. Felly gofynnwyd am gymeradwyaeth y Bwrdd ar gyfer y penderfyniad hwn.

40. Rhoddodd y Cadeirydd gyd-destun llywodraethu'r drafodaeth a nododd gyfrifoldebau CNC i dirfediannwr yr Ystad.
41. Cafwyd dadl gadarn yngylch yr argymhelliaid. Cydnabuwyd yr angen am strategaeth hamdden ond byddai'n bwysig cyflwyno hyn fesul cam yn erbyn y Cynllun Corfforaethol newydd, i sicrhau eu bod ar y cyd ac yn integredig. Holodd aelodau'r Bwrdd a fyddai angen adolygu'r holl benderfyniadau sy'n ymwneud â hamdden, fel y penderfyniad ar chwaraeon moduro, pan fyddai'r strategaeth hamdden ar waith. Eglurwyd na fyddai penderfyniadau blaenorol yn cael eu hailsstyried, ond byddai unrhyw gynigion newydd a gyflwynir yn cael eu hadolygu o dan y strategaeth newydd, a fyddai'n destun ymgynghoriad â rhanddeiliaid. Mynegwyd pryderon yngylch yr amser posibl fyddai ei angen i ddatblygu'r strategaeth. Awgrymwyd y gellid ceisio sefyllfa dros dro tra bod y strategaeth hamdden yn cael ei datblygu.
42. Roedd rhywfaint o gefnogaeth ymhlið aelodau'r Bwrdd i wrthdroi'r penderfyniad i roi'r gorau i ganiatáu helfeydd dilyn trywydd, gyda'r awgrym na fyddai'r penderfyniad wedi'i wneud pe na bai'r achos llys gwreiddiol wedi rhoi dyfarniad euog. Mynegwyd pryderon nad oedd y Bwrdd mewn sefyllfa dda i ddeall y materion sy'n wynebu bywyd cymunedol gwledig, ond fe gafodd hyn ei wrthod yn gryf. Tynnwyd sylw at rôl Ystad CNC o ran cefnogi llesiant cefn gwlad Cymru a disgrifiwyd y pwysau presennol ar y gymuned wledig a ffermio. Amlygwyd nad oedd tystiolaeth o hela anghyfreithlon ac awgrymwyd y dylid cynnal trafodaethau gyda'r sefydliadau dan sylw yngylch sut i sicrhau na fyddai hela anghyfreithlon yn digwydd yn y dyfodol.
43. Trafodwyd pwysigrwydd tystiolaeth ar gyfer y penderfyniad, yn enwedig o ystyried rôl CNC fel sefydliad sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Ystyriwyd yr angen am dystiolaeth bellach ar y mater hwn, yn enwedig o ran gwneud penderfyniadau anodd am adnoddau'n wrthrychol. Byddai angen ystyried tystiolaeth feintiol yn erbyn tystiolaeth ansoddol, a bod yn glir yngylch sut i gynnal y sylfaen dystiolaeth. Cytunwyd y dylai hyn fod yn rhan bwysig o'r strategaeth a'r fframwaith hamdden. Cytunwyd hefyd y byddai angen canllawiau clir gan Lywodraeth Cymru a'r Gweinidog ar y dull a ffefrir ganddynt o gynnal helfeydd dilyn trywydd. Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai'n codi'r cwestiwn gyda'r Gweinidog yn eu cyfarfod nesaf.
44. Nododd aelodau'r Bwrdd y llythyrau a ddaeth i law'r Bwrdd oddi wrth bartïon â diddordeb, a holwyd yngylch y gwaith a'r ymgysylltu gyda'r grwpiau hyn hyd yma. Cadarnhaodd y Pennaeth Siwardiaeth Tir nad oedd unrhyw drafodaethau sylweddol wedi'u cynnal eto gan fod angen arweiniad gan y Bwrdd cyn i'r rhain gael eu cynnal. Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai'n hapus i gwrdd â'r rhai a oedd wedi ysgrifennu ar y mater hwn.
45. Cytunodd y Bwrdd y byddai angen strategaeth hamdden er mwyn gwneud penderfyniadau yn y dyfodol yn erbyn fframwaith a sylfaen dystiolaeth y cytunwyd arnynt, gan symud ymlaen drwy Bwyllgor Ystad Tir newydd CNC. Er bod amrywiaeth o wahanol safbwytiau wedi codi yn y ddadl, cytunodd y Bwrdd ar y cyd i gymeradwyo penderfyniad y Tîm Gweithredol i beidio ag adolygu'r sefyllfa ar helfeydd dilyn trywydd tra bod y strategaeth hamdden yn dal i gael ei datblygu. Cytunwyd y dylid cyflwyno llinell amser lawn ar gyfer datblygu'r strategaeth hamdden gerbron cyfarfod nesaf y Bwrdd ym mis Tachwedd.

CAM GWEITHREDU: Cyflwyno llinell amser lawn ar gyfer datblygu'r Strategaeth Hamdden gerbron cyfarfod nesaf y Bwrdd ym mis Tachwedd.

WEDI'I GEFNOGI: Penderfyniad y Tîm Gweithredol i beidio â cheisio bod y Bwrdd yn adolygu ei benderfyniad blaenorol i roi'r gorau i ganiatáu helfeydd dilyn trywydd ar Ystad CNC.

Eitem 9: Pwyllgor Ystad Tir Arfaethedig CNC

Cyflwynydd: Colette Fletcher, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd

Yn bresennol: Victoria Painter, Rheolwr Llywodraethu a Risg; Dominic Driver, Pennaeth Stiwardiaeth Tir

46. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau'r eitem. Roedd y Bwrdd wedi cytuno yn y cyfarfod diwethaf i greu Pwyllgor Ystad Tir CNC (NRWLEC). Cynigiwyd y byddai'r Athro Calvin Jones yn Gadeirydd gyda'r Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau yn noddwr y Tîm Gweithredol.
47. Nododd y Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd mai'r gobaith, ar adeg drafftio'r papur, oedd cael y cyfarfod cyntaf ym mis Hydref ond byddai hyn nawr yn cael ei drefnu cyn gynted â phosibl, unwaith y byddai'r aelodaeth wedi'i chadarnhau.
48. Cadarnhaodd y Cadeirydd eu bod yn disgwyli aelodau newydd y Bwrdd ymuno â'r Pwyllgor, ond gwahoddwyd gwirfoddolwyr o aelodaeth bresennol y Bwrdd i wasanaethu ar y Pwyllgor. Mynegodd yr aelodau Bwrdd canlynol ddiddordeb mewn rôl ar y Pwyllgor: Geraint Davies, Dr Rosie Plummer, yr Athro Steve Ormerod.
49. Nododd aelodau'r Bwrdd y byddai cydbwysedd yr aelodaeth yn hollbwysig.
Argymhellwyd bod angen mireinio'r Cylch Gorchwyl ychydig er mwyn egluro ei rôl o ran rhoi cymorth sicrwydd i'r Bwrdd ac i egluro'r cylch gorchwyl ar gyfer y gwaith ar draws NRWLEC a PrAC. Awgrymwyd y gellid cynhyrchu diagram i fapio ar draws y fforymau a oedd yn ystyried y mathau hyn o feisydd.

WEDI'I GYMERADWYO: Y trefniadau llywodraethu arfaethedig ar gyfer Pwyllgor Ystad Tir newydd CNC

Eitem 10: Newidiadau arfaethedig i'r Cynllun Statudol a Chyfreithiol (SaLS)

Cyflwynydd: Colette Fletcher, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd

50. Cyflwynodd y Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd yr eitem a rhoddodd fwy o fanylion am y newidiadau arfaethedig i'r Cynllun Statudol a Chyfreithiol (SaLS). Roedd y diwygiad cyntaf yn ymwneud â'r Bwrdd Busnes Stiwardiaeth Tir. Roedd y geiriad wedi'i ddiwygio i adlewyrchu anghenion gweithgarwch Masnachol ac ychwanegwyd llinell newydd i ymgorffori anghenion gweithgarwch Stiwardiaeth Tir. Byddai hyn yn rhoi eglurder ynghylch y rolau a'r cyfrifoldebau sy'n ymwneud â gwerthu a chaffael tir ac yn egluro'r gwahaniaethau rhwng y dulliau Masnachol a Stiwardiaeth Tir. Disgrifiwyd y llwybr cymeradwyo Trefniadau Llywodraethu fel y nodwyd yn y papur.
51. Disgrifiwyd yr ail ddiwygiad arfaethedig. Roedd hon yn llinell newydd gan y Bwrdd Busnes Rheoleiddio (REGGB), ac nid oedd unrhyw gynsail. Roeddent wedi datblygu Nodyn Cyfarwyddyd Gweithredol (OGN) newydd ynghylch tynnu adleoliadau yn ôl, a ddaeth i law oddi wrth Is-grŵp Gwastraff REGGB. Cynigiwyd y ddwy llinell newydd i egluro'r cysondeb â phrosesau eraill.
52. Cymeradwyodd y Bwrdd y newidiadau arfaethedig i'r SaLS.

WEDI'I GYMERADWYO: Y newid arfaethedig i'r Cynllun Statudol a Chyfreithiol (SaLS) o'r Byrddau Stiwardiaeth Tir a Busnes Rheoleiddio

Eitem 11: Sylfaen Dystiolaeth Ofynnol ar gyfer Gwella Ansawdd Dŵr yng Nghymru a Thystiolaeth Diweddarriad Strategol

Cyflwynwyr: Chris Collins, Pennaeth Gwybodaeth a Thystiolaeth; Alun Attwood, Rheolwr, Monitro ac Adrodd

53. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu'r eitem.
54. Rhoddodd y Pennaeth Gwybodaeth a Thystiolaeth gyflwyniad i ystyried sut olwg fyddai ar y sylfaen dystiolaeth ansawdd dŵr a sut y gellid llenwi'r bwlc hystiolaeth gyda'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael. Disgrifiwyd technolegau a ffyrdd newydd o weithio a thynnwyd sylw at bwysigrwydd datblygu gwaith gyda phartneriaid. Rhannwyd y gwaith ar ddadansoddeg data ac eglurwyd y duedd data o'r 1990au ar lefelau ffosfforws mewn afonydd ledled Cymru. Disgrifiwyd y defnydd o dechnoleg newydd ar gyfer samplu dŵr. Eglurwyd y dull gwarchod presennol o fonitro a'r gwaith sydd ynghlwm wrth symud tuag at ddull mwy ystwyth. Disgrifiwyd y buddsoddiad cyfalaf ar synwyryddion ariannu yn Afon Gwy i fonitro mewn amser gwir. Rhannwyd yr ystod o faterion y gellid eu monitro, er eglurwyd bod anawsterau wrth fesur ffosfforws gyda'r dechnoleg gyfredol.
55. Rhannwyd y dull a ddefnyddir i lliniaru prinder data. Cyflwynwyd map gwres o ddata gwyddonwyr lleyg a disgrifiwyd y defnydd o'r data hwn. Nodwyd bod rhai heriau o ran dosbarthiad daearyddol ac ansawdd data. Roedd gwaith yn cael ei wneud gyda'r Ymddiriedolaeth Afonydd ar Afon Wysg a byddai dull tebyg yn cael ei ystyried gydag Afon Gwy.
56. Eglurodd Cyfarwyddwr Gweithredol EPP y byddai ffocws trafodaeth y Bwrdd ar fonitro yn wyneb yr adnoddau prin, y defnydd o ddatblygiadau technolegol, y dull o rannu hystiolaeth i'w defnyddio gan eraill, a gweithio gyda phartneriaid ac eraill, fel gwyddonwyr lleyg a phrifysgolion, i ddatblygu dull cyfunol gyda'r materion hyn.
57. Tynnodd y Cadeirydd sylw at gynhadledd y Prif Weinidog ar ansawdd dŵr a'r gwaith sy'n cael ei wneud gan amrywiaeth o bartion i ddod â raglen gydgysylltiedig at ei gilydd. Cydnabuwyd yr heriau ariannol ond roedd angen cyflawni un fersiwn o'r gwirionedd. Byddai angen symud y tu hwnt i'r ffocws presennol ar roi bai, tuag at bawb yn cydweithio gyda chyfrifoldeb ar y cyd.
58. Awgrymwyd y gallai CNC chwarae rhan mewn hwyluso a galluogi ymdrech ar y cyd wrth harneisio ac ymgysylltu ar draws y sbectrwm i ddatblygu un llwyfan. Nodwyd bod pethau wedi symud ymlaen yn gyflym yn ystod y flwyddyn ddiwethaf o ran ymgysylltu a bod angen symud nawr at delerau gweithredu pendant.
59. Trafodwyd pwysigrwydd gwyddoniaeth leyg. Amlygwyd y sgôp ar gyfer harneisio mewnbwn gan amaturiaid ymroddedig yn yr un modd â'r Swyddfa Dywydd ac ehangder y cyfleoedd gyda'r prifysgolion. Nodwyd y pwysigrwydd o sicrhau ansawdd data gwyddoniaeth leyg. Disgrifiodd y Pennaeth Gwybodaeth a Thystiolaeth beth o'r gwaith cydweithredol a oedd yn digwydd ar hyn o bryd ac eglurodd fod cyllid wedi'i gytuno ar gyfer cydlynnydd gwyddoniaeth leyg. Amlygwyd gwerth cynnwys grwpiau fel ffermwyr a physgotwyr mewn gwyddoniaeth leyg. Disgrifiodd y Pennaeth Gwybodaeth a Thystiolaeth y gwaith sy'n cael ei wneud gyda physgotwyr ar Afon Gwy a chytunodd y byddai'n dda symud ymlaen gyda grwpiau eraill. Disgrifiwyd ap Tywi a ddatblygyd gan Goleg Gelli Aur, ac argymhellwyd y dylai hyn gael ei ystyried gan y tîm, ynghyd â data o

brosiect LIFE Afon Dyfrdwy a'i waith gyda ffermwyr. Cytunodd y Pennaeth Gwybodaeth a Thystiolaeth i fynd ar drywydd hyn.

60. Trafodwyd y gwaith o ddehongli'r data. Cydnabuwyd y byddai angen deall effaith fiolegol y data a gasglwyd yn well. Gallai'r newid o fonitro gwarchodol i fonitro ystwyth alluogi monitro sydd wedi'i dargedu a'i ddadansoddi'n fwy, ond nodwyd bod Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cael rhywfaint o feirniadaeth wrth symud i'r dull hwn oherwydd y gostyngiad canfyddedig mewn gwaith monitro. Holwyd a fyddai'n bosibl rhagweld tueddiadau o'r data cyfredol mewn ffordd debyg i ddata newid hinsawdd. Eglurodd y Rheolwr, Monitro ac Adrodd, y byddai angen datblygu'r agwedd hon. Cydnabuwyd y byddai angen i CNC ddatblygu a galluogi capasiti dadansoddi data.
61. Disgrifiodd y Cadeirydd y gwaith sy'n mynd rhagddo gyda'r cwmnïau dŵr a'r dull o gydweithio ar y mater. Byddai angen datblygu camau gweithredu i ddatblygu ac adeiladu clymlaidd o bartneriaid, gan ddefnyddio pŵer CNC fel cynullydd. Byddai angen datblygu gweledigaeth o'r hyn y byddai data gwell yn ei ddarparu o ran ansawdd dŵr, er enghraift wrth fesur effeithiolrwydd ymyriadau. Byddai angen gwella a datblygu'r broses o gyhoeddi a lledaenu data tuag at ddull sy'n canolbwytio ar y defnyddiwr. Pwysleisiwyd bod ansawdd dŵr yn fater brys ac y byddai gwell prosesau casglu data yn cyfeirio camau wedi'u targedu.

Eitem 12: Ymgysylltu â'r Cyhoedd a Thryloywder mewn Cyfarfodydd Bwrdd

Cyflwynydd: Colette Fletcher, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd

62. Rhoddodd y Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd gyflwyniad. Nodwyd bod y model hybrid presennol o gyfarfodydd Bwrdd yn wahanol iawn i'r model cyn-Covid, a thynnwyd sylw at bwysigrwydd ymgysylltiad gwell, yn enwedig gyda'r Cynllun Corfforaethol newydd. Roedd angen dod o hyd i ffordd o gydbwyso'r cyfle i ymgysylltu â gwneud penderfyniadau'n gyhoeddus. Ystyriwyd nad oedd y model presennol yn rhoi'r cwsmer yn gyntaf a rhannwyd y cynllun ar gyfer datblygu'r cynigion. Byddai hyn yn cynnwys ystyried sut aeth eraill ati'n llwyddiannus i wneud hyn. Rhannwyd y camau nesaf a fyddai'n cynnwys ymgynghoriad cyhoeddus ac estyn allan at aelodau'r cyhoedd sy'n mynch y cyfarfodydd y Bwrdd yn rheolaidd. Byddai cynigion yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd i'w cymeradwyo ym mis Tachwedd.
63. Amlygodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnach Strategaeth Ymgysylltu CNC. Nodwyd gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg fel haen arall i'w hystyried. Trafodwyd y potensial o ystyried dulliau rhwngwladol. Trafododd aelodau'r Bwrdd y gwaith oedd yn cael ei wneud ar Natur a Ni a'r pwysigrwydd o ehangu cyrhaeddiad, er enghraift, i'r genhedlaeth iau. Disgrifiwyd gwaith Byrddau ieuenciad a'r pwysigrwydd o gynyddu ymgysylltiad â phobl ifanc, o safbwyt cydraddoldeb ac amrywiaeth. Awgrymwyd y gellid ystyried rôl aelod Bwrdd dan hyfforddiant neu aelod cyswllt.

Eitem 13: Rhagolwg y Bwrdd

Cyflwynydd: Colette Fletcher, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd

64. Rhannodd y Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd ddogfen Rhagolwg y Bwrdd a rhoddodd drosolwg.
65. Gellid ehangu ar eitem y cynllun Strategaeth Ddigidol i ganiatáu i'r Bwrdd ystyried y Rhaglen Drawsnewid yn ehangach. Ni fyddai'r eitem ar y Dynodiad Parc Cenedlaethol newydd yn barod ar gyfer cyfarfod mis Tachwedd a byddai'n cael ei symud ymlaen i fis ionawr.

Eitem 14: UFA

66. Roedd Cylch Gorchwyl y Bwrdd wedi'i ddosbarthu ar gyfer sylwadau cyn y cyfarfod.
Cymeradwyodd y Bwrdd Gylch Gorchwyl y Bwrdd.

WEDI'I GYMERADWYO: Cylch Gorchwyl y Bwrdd

- Daeth cyfarfod y Bwrdd i ben –

Sesiwn Holi ac Ateb Gyhoeddus

67. Cymerodd y Bwrdd gwestiynau gan Mr Kim Waters o Undeb Afonydd Cymru ar faterion ansawdd dŵr, yn ymwneud yn benodol ag Afon Gwy ac Afon Wysg.

- Daeth y cyfarfod i ben –

Cyfarfodydd Bwrdd

Rhif y Cam Gweithredu	Categori'r Cyfarfod	Dyddiad y Cyfarfod	Rhif yr Eitem	Rhif y Paragraff	Noddwr y Papur	Cam Gweithredu	Perchenog	Erbyn	Statws	Nodiadau/Diweddariadau
41	Cyhoeddus	26/05/2022	7	46	Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu; Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnach	CAM GWEITHREDU: Y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr i ddatblygu'r trefniadau llywodraethu gydag is-bwylgor newydd y Bwrdd, o ran y dull o ymdrin â thir a reolir gan CNC.	Cadeirydd a'r Prif Swyddog Gweithredol	07/01/2023	Yn parhau	Y Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd i ddatblygu Cylch Gorchwyl y pwylgor newydd. Y Cadeirydd i drafod aelodaeth ehangach y pwylgor gyda'r Athro Calvin Jones. I'w ystyried yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Medi. Aelodaeth y Pwyllgor yn cael ei datblygu.
51	Cyhoeddus	14/07/2022	8	40	Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu	CAM GWEITHREDU: Diweddarriad i'w ddosbarthu i aelodau'r Bwrdd am brosiect mega-ddalgyrch Bannau Brycheiniog.	Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu	17/08/2022	Yn parhau	
60	Cyhoeddus	22/09/2022	8	46	Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu	CAM GWEITHREDU: Llinell amser lawn ar gyfer datblygu'r Strategaeth Hamdden i'w chyflwyno gerbron cyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd.	Dominic Driver, Pennaeth Stiwardiaeth Tir	26/10/2022	Cwblhawyd	

Papur y Bwrdd

	Manylion y Papur
Teitl y Papur:	Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol
Cyfeirnod y Papur:	22-11-B05
Noddir y Papur gan:	Clare Pillman, Prif Weithredwr
Cyflwynir y Papur gan:	Clare Pillman, Prif Weithredwr
Diben y Papur	Er gwybodaeth/i'w drafod

Cyflwyniad

1. Yn dilyn y drafodaeth hynod ddiddorol ar y Cynllun Corfforaethol yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Medi, mae hi wedi bod yn braf treulio amser gyda chydweithwyr yn y Tîm Gweithredol ac Arwain dros y ddeufis diwethaf yn gweithio ar ddatblygiad pellach y cynllun. Mae manteision gallu gwneud pethau wyneb yn wyneb yn teimlo'n real iawn. Ac mae'n amlwg o nifer y cynadleddau, y digwyddiadau a'r lansiadau fod pawb yn mwynhau mynd allan hwnt ac yma.
2. Mae'r mis diwethaf wedi bod yn un prysur i Lywodraeth Cymru hefyd, gyda chyhoeddiad canfyddiadau'r Archwiliad Dwn Bioamrywiaeth, gan gynnwys cyllid ychwanegol i'n Rhaglen Mawndiroedd, cyhoeddi'r Bil Amaethyddiaeth, cyhoeddi oedi o dri mis i weithredu terfyn nitrogen blynnyddol fel rhan o weithredu Parth Perygl Nitradau (NVZ) Cymru gyfan a chyhoeddi cynigion i sefydlu cwmni ynni adnewyddadwy sy'n eiddo i'r wladwriaeth.
3. Mae Llywodraeth y DU wedi dod allan o gyfnod eithriadol o anodd, gyda'r economi o dan fwy fyth o bwysau a diffyg eglurder yng Nghymru bron pob un o'i bolisiau amgylcheddol (ac eithrio ffracio, y cafwyd tro pedol buan yn ei gylch). Ar adeg ysgrifennu'r erthygl hon, rydym yn disgwyli cyllideb y Canghellor, sy'n sicr o gyflwyno toriadau mawr i wariant cyhoeddus, ac i weld a fydd y Prif Weinidog yn penderfynu mynchyu Cynhadledd y Partïon (COP)27 wedi'r cyfan. Er nad yw'r amgylchedd bob amser wedi bod ar frig yr agenda yn ystod y cyfnod rhyfeddol

hwn, mae'r datganiadau o ddiicter gan sefydliadau anlywodraethol amgylcheddol (eNGOs), ynghyd â chefnogaeth fwy tawedog ond pwerus i'r Cynllun Rheoli Tir er lles yr Amgylchedd (ELMS) gan rai ffermwyr a rheolwyr tir, wedi tynnu sylw at y gefnogaeth eang sydd i fydd natur.

4. Yn y cyfnod cyn COP27 yn yr Aifft ym mis Tachwedd a COP15, a fydd yn cael ei chadeirio gan Tsieina ond ei chynnal ym Montreal ym mis Rhagfyr, bydd ffocws o'r newydd ar gynnydd (neu ddifyg cynnydd) tuag at dargedau amgylcheddol. Bydd COP15 yn arbennig o bwysig o ran gosod targedau ar gyfer bioamrywiaeth, ac rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda chyrrf cadwraeth natur eraill y DU ar ddatganiad a chynllun cyfathrebu ar y cyd. Bydd hwn yn cael ei lansio mewn digwyddiad yn y Gymdeithas Frenhinol yn Llundain ar 23 Tachwedd.
5. Rwy'n ddiolchgar i Mike Evans am fynychu cyfarfod diweddar Asiantaethau Diogelu'r Amgylchedd Ewrop yn Romania ar fy rhan i. Fel erioed, bu'r grŵp grymus hwn yn troedio tiroedd didorol iawn, ac mae'n ffordd dda i ni gadw mewn cysylltiad â datblygiadau ehangach yn Ewrop.

Rhanddeiliaid

6. Ym mis Medi, fe gwreddais i â Chadeirydd y Comisiwn Seilwaith, David Clubb, a Chyd-Brif Weithredwyr y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol, Myra Hunt a Harriett Green. Fe gwreddais i hefyd â Phrif Weithredwyr Parciau Cenedlaethol Cymru, Prif Weithredwyr Natural England, Marian Spain a NatureScot, Francesca Osowska, ac arweinwyr nifer o eNGOs Cymru. Fe gwreddais i â Nicholas Boys Smith, Cyfarwyddwr sefydlu'r fenter gymdeithasol Create Streets, ac fe wnes i hefyd fynychu digwyddiad Glandŵr Cymru yn y Senedd i ddathlu deng mlynedd ers ei sefydlu.
7. Ym mis Hydref, treuliais ddiwrnod hapus gyda Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig (ICF) yn eu Diwrnod Astudio. Er i'r digwyddiad gael ei gynnal yn Swydd Henffordd, fe'i trefnwyd gan ein staff ni, a John Browne yn enwedig. Roedd yn gyfle da i mi ddal i fyny gyda Richard Stanford, Prif Weithredwr y Comisiwn Coedwigaeth, a Louise Simpson, Prif Weithredwr newydd ICF.
8. Ym mis Tachwedd, fe gwreddais i ag Andrew Morgan, Cadeirydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), a Hilary McGrady, Prif Weithredwr yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Pobl

9. Llongyfarchiadau i Tracey Dunsford yn ein Tîm Adnoddau Dŵr am ennill Medal y Llywydd gan Sefydliad Siartredig Rheoli Dŵr a'r Amgylchedd (CIWEM) am ei chyfraniad at waith y Sefydliad fel Llywydd Cymru.

10. Mae Justin Albert wedi rhoi'r gorau i'w rôl fel Cyfarwyddwr Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru, gyda Lhosa Daly yn cymryd ei le.
11. Mae James Bevan wedi cyhoeddi y bydd yn rhoi'r gorau i'w rôl fel Prif Weithredwr Asiantaeth yr Amgylchedd ar 31 Mawrth 2023.

Materion Strategol

Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth

12. Mae CNC wedi bod yn gweithio gydag eraill i gefnogi'r Gweinidog, sydd wedi arwain Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth, i ddatblygu cyfres o gamau gweithredu ar y cyd y gallwn ni eu cymryd yng Nghymru i gefnogi adferiad a chydnerthedd natur. Mae'r ffocws wedi bod ar weithredu i ddiogelu a rheoli o leiaf 30% o'n tir, ein dŵr croyw a'n môr yn effeithiol er budd natur erbyn 2030 (30 erbyn 30). Dyma un o'r targedau sy'n rhan o Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang (GBF) newydd i'w gytuno yn COP15 yn ddiweddarach eleni.
13. Cyhoeddwyd yr argymhellion ar 3 Hydref ac maent yn cynnwys amcanion i drawsnewid ein cyfres o safleoedd gwarchodedig fel ei bod yn well, yn fwy ac wedi'i chysylltu'n fwy effeithiol, gan godi'r uchelgais a nodir yn ein Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd, datgloi potensial tirweddau dynodedig, parhau i ddiwygio cynlluniau rheoli'r tir a'r môr, datgloi buddsoddiad preifat i gyflawni er budd natur a datblygu ac addasu fframweithiau monitro a thystiolaeth.
14. Mae gan CNC rôl hanfodol yn sicrhau bod argymhellion yr Archwiliad Dwfn yn cael eu gwireddu ar frys i adfer ac adeiladu Cymru sy'n gadarnhaol am natur. Bydd y Gweinidog yn cyflwyno datganiad pellach cyn y Nadolig.

Y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd a Chynhadledd IUCN

15. Roedd wythnos gyntaf mis Hydref yn wythnos gyffrous i fawndiroedd yng Nghymru.
16. Ddydd Llun, cyhoeddodd y Gweinidog argymhellion Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth Cymru, sy'n cynnwys ymrwymiad i gynyddu capaciti cyflawni'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd. Mae maint a chyflymder y ddarpariaeth wedi codi'n sylweddol felly, erbyn 2030, byddai'r rhaglen yn gallu cyrraedd targed sero net 2050 o 45,000 hectar o fawndir wedi'i adfer. Mae'r Gweinidog wrthi'n ystyried yr opsiynau cyllido er mwyn cyflawni'r gwaith ac mae'n bwriadu gwneud cyhoeddiadau pellach yn ddiweddarach eleni.
17. Ddydd Mawrth, lansiwyd cynhadledd dridiau Rhaglen Mawndiroedd y DU (IUCN) yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur (IUCN) yn Aberystwyth. Fe wnaeth y Gweinidog annerch y gynhadledd a nodi ei chefnogaeth a'i huchelgais ar gyfer rheoli mawndiroedd yng Nghymru yn y dyfodol. Roedd y cynulliad yn gyfle i lunwyr polisi, gwyddonwyr, rheolwyr tir ac ymarferwyr o wahanol ddisgyblaethau

rannu eu gwybodaeth a'u profiad o gadwraeth a rheoli mawndiroedd. Fe fues i'n siarad yn y digwyddiad hefyd, gan alw am wahardd gwerthu mawn at ddibenion garddwriaethol yng Nghymru, a ysgogodd y Gweinidog i gyhoeddi y byddai Llywodraeth Cymru yn edrych i ddilyn Lloegr a'r Alban a rhoi gwaharddiad ar waith o 2024.

18. Yn ogystal â'r ffaith ei bod yn cael ei chynnal yng Nghymru, roedd cynhadledd eleni o arwyddocâd arbennig i CNC gan ei bod yn cael ei chynnal gan brosiect Cyforgorsydd Cymru LIFE a'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd, ac roedd yn gyfle gwych i arddangos y ddau brosiect. Roedd y digwyddiad yn llwyddiant ysgubol, gyda thros 220 o gynrychiolwyr yn bresennol.
19. Daeth yr wythnos i ben gyda lansiad prosiect Corsydd Crynedig LIFE yr UE ar Gors Crymlyn. Mynychodd y Gweinidog y digwyddiad hefyd. Bydd y rhaglen yn gwario ychydig dros £4.5 miliwn dros y pedair blynedd nesaf i adfer Corsydd Crynedig yng Nghymru.

Cymru yn Cyhoeddi Datblygwyr Ynni Adnewyddadwy ym Mherchnogaeth y Cyhoedd

20. Ar 25 Hydref, cyhoeddodd y Gweinidog Newid Hinsawdd, Julie James, y penderfyniad i sefydlu datblygwyr ynni sy'n eiddo i'r wladwriaeth mewn ymateb i ansicrwydd ynni, yr argyfwng costau byw a'r bygythiadau sy'n codi yn sgil yr argyfyngau hinsawdd a natur. Ffocws cychwynnol y datblygwyr ynni sy'n eiddo i'r wladwriaeth fydd datblygu prosiectau ynni gwynt ar Ystad Goed Llywodraeth Cymru (WGWE), a reolir gan CNC. Mae CNC wedi bod yn rhan o'r rhaglen Datblygwyr Ynni Adnewyddadwy (RED) ers ei sefydlu, ac mae Sarah Jennings yn aelod o'r Bwrdd.
21. Disgwyllir y bydd yn cymryd tan fis Ebrill 2024 i sefydlu a staffio'r sefydliad newydd. Yn y cyfamser, bydd tîm interim Llywodraeth Cymru yn cyflawni gwaith dichonoldeb ar amryw o safleoedd posibl ledled Cymru; mae disgwyli i hyn gymryd hyd at ddeuddeg mis. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd CNC yn gweithio'n agos gyda'r tîm interim i gynorthwyo i nodi risgiau, materion a chyfleoedd i Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR). O ystyried yr ysgogiad, rydym wrthi'n archwilio sut i ymdopi â'r galw cynyddol yn y llwyth gwaith ar draws ein timau Masnachol a Gweithrediadau.

Trwyddedu Morol

22. Byddaf yn cyfarfod â'r Prif Weinidog a Julie James ymhen ychydig wythnosau i drafod trwyddedu morol. Wrth baratoi ar gyfer y cyfarfod hwn, ac yn dilyn y gwaith ar yr Archwiliad Dwfn Ynni Adnewyddadwy, rydym wedi cyflwyno'r wybodaeth a ddarparwyd gennym yn gynharach yn y flwyddyn yn amlinellu'r capaciti sydd ei angen i ddarparu swyddogaethau cynghori a thystiolaeth morol a daearol fel Cytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG). Nod yr opsiynau yw ceisio gwneud capaciti'r Rhaglen Ynni Adnewyddadwy ar y Môr presennol yn barhaol, gan gyflwyno opsiynau pellach i allu parhau i ddarparu gwasanaeth hyfyw drwy

ehangu i fyny ac i lawr ar draws brig y rhagolygon datblygu adnewyddadwy dros y pum i ddeng mlynedd nesaf.

23. Rydym hefyd wedi ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a'i hymgyngorwyr ICF yn ystod yr adolygiad proses o'r dechrau i'r diwedd y disgwylir iddo adrodd yn ffurfiol ar ei ganfyddiadau a'i argymhellion ym mis Hydref / mis Tachwedd. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhannu copïau drafft o'r adroddiad cryno a thechnegol gyda ni er mwyn i ni wneud sylwadau arno, ac fe wnaethon godi nifer o bryderon yn ymwneud â'r adroddiad cryno. Trafodwyd ein hadborth gyda Llywodraeth Cymru yn fanylach a chafwyd ymrwymiad ganddynt i wneud newidiadau i'r adroddiadau drwy ddeialog gydag ICF.
24. Nid yw'r CLG yn cynnwys cost y camau gweithredu sydd eu hangen i weithredu argymhellion yr adolygiad o'r dechrau i'r diwedd o drwyddedu morol. Ar ôl i'r rhain gael eu costio, gellir ehangu'r CLG i gwmpasu ehangder llawn y gwasanaethau cynghori a rheoleiddio o'r dechrau i'r diwedd.

Prosiect Cwblhau'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig

25. Mae Llywodraeth Cymru, gyda chefnogaeth CNC a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC), wedi bod yn gweithio gyda grŵp gorchwyl a gorffen o randdeiliaid morol i nodi nifer fach o Barthau Cadwraeth Morol (MCZs) posibl yn nyfroedd Cymru. Mae'r gwaith yn cael ei wneud i gyflawni ymrwymiad y Gweinidog yn 2017 i gyflawni rhwymedigaethau cenedlaethol a rhyngwladol i greu rhwydwaith ecolegol gydlynol o Ardaloedd Morol Gwarchodedig (MPAs). Tynnwyd sylw at arwyddocâd y prosiect yn sgil ei gynnwys yn argymhellion yr Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth a gyhoeddwyd yn ddiweddar.
26. Datblygwyd proses fesul cam ar gyfer nodi MCZs posibl. Mae meysydd chwilio wedi'u nodi; mae'r cam nesaf yn cynnwys drafftio ffiniau MCZs posibl o fewn yr ardaloedd hyn. I lywio'r cam hwn, disgwylir i Lywodraeth Cymru fynd ati'n fuan i lansio proses ymgysylltu cyn-ymgyngori anffurfiol. Sectorau a rhanddeiliaid morol yw'r gynulleidfa fwriedig yn bennaf, ond bydd yr holl wybodaeth ar gael i'r cyhoedd ac rydym yn rhagweld diddordeb gan rai cymunedau.
27. Caiff gwybodaeth ei lledaenu drwy dudalennau ar wefan Busnes Cymru Llywodraeth Cymru, y cyfryngau cymdeithasol, e-byst wedi'u targedu, arolwg barn a diwrnodau ymgysylltu. Darperir manylion am y broses a fabwysiadwyd a'r chwe Ardal Chwilio a ddewiswyd. Ffocws allweddol ar gyfer y cyfnod ymgysylltu ehangach yw hyrwyddo ein gwybodaeth am ddiddordebau economaidd-gymdeithasol o fewn yr Ardaloedd Chwilio, drwy adborth a thrafodaethau gyda rhanddeiliaid.
28. Rydym yn rhagweld y gallai fod pryder am leoliad rhai Ardaloedd Chwilio a'r broses yn gyffredinol. Arweiniodd yr ymgynghoriad blaenorol ar MCZs hynod warchodedig yn 2012 at wrthwynebiad lleol cryf i'r cynigion, ac mae gan y broses

MCZ bresennol y potensial i atgyfodi drwgdeimlad a gwrthwynebiad lleol. Mae'r mater yn cael ei drin fel risg i enw da ac mae'r ymateb manwl i'w roi wedi cael ei rannu'n fewnol.

Strategaeth Hamdden

29. Yn dilyn cyfarwyddyd y Bwrdd ym mis Medi, rydym wedi ymgynnll y tîm a dechrau gweithio ar strwythur y Strategaeth Hamdden. Mae'r cerrig milltir allweddol yn natblygiad y strategaeth yn cynnwys ymgynghoriad mewnol ac allanol rhwng mis Rhagfyr a mis Mawrth 2023, paratoi drafft cyntaf i'w ystyried gan Bwyllgor Ystâd Tir CNC (NRWLEC) ym mis Mai, a drafft terfynol erbyn mis Medi, i'w ystyried gan y Bwrdd ym mis Tachwedd 2023.
30. Yn dilyn cyhoeddi'r strategaeth, bydd hyfforddiant staff a chyfathrebu mewnol ac allanol yn cael ei gynnal. Bydd yr adroddiad cynnydd cyntaf yn cael ei gyflwyno i NRWLEC ym mis Ebrill 2024.
31. Bydd y Cynllun Corfforaethol newydd yn pennu cwmpas y Strategaeth Hamdden. Mae'r dull rydym yn ei ddefnyddio yn cynnwys dull ymgynghorol o ymgysylltu a chrynhoi tystiolaeth gan ddefnyddio tystiolaeth sydd eisoes wedi'i chasglu, yn hytrach nag ymgynghoriad cyhoeddus llawn neu adolygiad tystiolaeth systematig. Ein nod yw bod yn berthnasol ar lefelau cenedlaethol a Lle a darparu fframwaith lle gwneir penderfyniadau yn seiliedig ar beth arall sydd i'w wneud a beth i'w newid, stopio, lleihau, oedi neu drosglwyddo. Mae ein cynllun gwerthuso yn seiliedig ar nodi tueddiadau mewn dangosyddion o'r canlyniadau allweddol rydym am eu gweld a'r newidiadau a ddymunir mewn tueddiadau.
32. Bydd penderfyniadau strategol blaenorol ar hamdden yn cael eu hystyried eto os yw hynny'n briodol unwaith y bydd y strategaeth wedi'i chwblhau.

Bil Cydsynio Seilwaith

33. Mae'r Prif Weinidog wedi cyhoeddi y bydd y Bil Cydsynio Seilwaith yn rhan o raglen ddeddfwriaethol 2022/23 yn y Senedd.
34. Byddai'r Bil yn berthnasol i ddatblygiadau daearol a morol. Yng nghyd-destun y môr, byddai hyn yn berthnasol i osodiadau ynni adnewyddadwy ar y môr a phorthladdoedd / harbyrau. Bydd yn ofynnol i osodiadau mawr ar y môr (50-350 MW) gael cydsyniad seilwaith, tra bydd gan osodiadau llai o faint (10-50 MW) yr opsiwn o gael naill ai gydsyniad seilwaith neu drwydded forol a chydsyniad a.36. Bydd y rheoliadau'n berthnasol hefyd i gynigion a datblygiadau i gynyddu capaciti porthladdoedd a harbyrau.
35. Bydd y Bil yn cynnwys barnu trwydded forol. Byddai CNC yn gyfrifol am gyflawni amodau'r drwydded dybiedig, gyda Llywodraeth Cymru yn cadw gorfodaeth, a

bydd angen mewnbwn ein swyddogaethau rheoleiddio a chynghori ar y Llywodraeth.

36. Mae ein swyddogaethau rheoleiddio a chynghori wedi bod yn ymgysylltu'n ddiwyd â Llywodraeth Cymru i ddeall ei disgwyliadau o'n rôl yn y broses, er mwyn helpu i ddylanwadu ar ddrafftio'r ddeddfwriaeth. Yn ddiweddar, mae'r Tîm Gweithredol (ET) wedi ystyried papur a oedd yn nodi'r opsiynau ar gyfer y trefniadau ymgynghori gyda CNC, gan gynnwys ystyried y cyllid ar gyfer y gwasanaeth hwn. Rydym wedi cyfleu'r dewis a ffefrir i Lywodraeth Cymru ac rydym yn parhau i fod mewn deialog barhaus.

Trwyddedau Tynnu Dŵr – Awdurdodiadau Newydd

37. Ym mis Ionawr 2018, cafodd llawer o eithriadau trwyddedu tynnu dŵr eu dileu yn dilyn diwygiadau Deddf Dŵr 2003 i Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991. O dan Reoliadau Tynnu Dŵr (Darpariaethau Trosiannol) 2017, mae angen dod â'r gweithgareddau tynnu dŵr hyn a eithriwyd yn flaenorol o dan reolaeth reoleiddio erbyn 31 Rhagfyr 2022.
38. Yn dilyn cyfnod o dair blynedd ar gyfer cyflwyno ceisiadau am drwyddedau newydd, mae CNC wedi pennu'r ceisiadau dros gyfnod o ddwy flynedd, o fewn y rhaglen gwaith Awdurdodi Newydd.
39. O'r 117 o geisiadau a ddaeth i law, mae tua 25 o geisiadau risg ganolig ac uchel yn dal i gael eu pennu. Rydym yn hyderus y bydd y rhain yn cael eu cwblhau cyn y dyddiad terfyn ym mis Rhagfyr. Mae'r dull polisi llai manwl, seiliedig ar risg sy'n sail i'r Rheoliadau Trosiannol yn gyffredinol yn golygu y bydd gweithgareddau tynnu dŵr yn cael eu trwyddedu yn unol â gweithgareddau tynnu dŵr hanesyddol y ceir tystiolaeth ar eu cyfer. Mewn rhai achosion, food bynnag, rydym yn lleihau faint o ddŵr sy'n cael ei dynnu neu'n cynnwys amodau i'r drwydded sy'n helpu i liniaru effeithiau posibl. Gallem wrthod cais os ydym yn credu y gallai niwed amgylcheddol difrifol ddigwydd o ganlyniad i dynnu dŵr.
40. Byddai unrhyw geisiadau nad ydynt wedi'u pennu cyn y dyddiad terfyn yn cael eu gwrrhod. Ni fyddai gan y rhai sy'n tynnu dŵr unrhyw hawl gyfreithiol i barhau i dynnu dŵr, ond byddai ganddynt yr hawl i apelio os na wneir penderfyniad ar y cais.

Adolygiad Llywodraethu Dŵr Llywodraeth Cymru

41. Yn dilyn yr Uwchgynhadledd Llygredd Afonydd yn y Sioe Fawr ar 18 Gorffennaf, cyhoeddodd y Prif Weinidog ddatGANIAD ysgrifenedig yn croesawu'r ymrwymiad gan yr holl gynrychiolwyr a oedd yn bresennol yn yr uwchgynhadledd a'r addewidion a wnaed. Mae un o'r wyth maes ymyrraeth y cytunwyd arnynt yn cynnwys gweithio gyda phartneriaid i adolygu'r strwythurau llywodraethu presennol er mwyn sicrhau bod y dull cydweithredol Cymru gyfan, a

gymeradwywyd yn yr uwchgynhadledd ar 18 Gorffennaf, yn cael ei symleiddio ac yn addas i'r diben.

42. Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu ymgynghorwyr (KPMG) i arwain y gwaith hwn ac rydym yn eu cefnogi yn eu hadolygiad, sydd wedi cychwyn. Bydd y canlyniad yn cael ei gadarnhau yr hydref hwn fel rhan o Gynllun Gweithredu Afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA). Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y llywodraeth, rheoleiddwyr a'r holl sectorau yn gweithio mor effeithlon â phosibl, a gyda'i gilydd, i sicrhau bod y camau'n cael eu cymryd drwy strwythurau a sefydliadau priodol.
43. Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro cynnydd yn agos ac yn ailymgynnnull yr Uwchgynhadledd Llygredd Afonydd yn gynnar yn 2023.

Tîm Rhaglen Diwygio Rheoleiddio Gwastraff

44. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ymrwymo i Gyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr (ExPR) yn ei Strategaeth Mwy nag Ailgylchu a'i Rhaglen Lywodraethu, fel offeryn allweddol i symud Cymru tuag at economi gylchol. Er mwyn cyflawni hyn, maent wedi sefydlu Rhaglen ExPR sy'n cwmpasu ystod o ddiwygiadau ehangach.
45. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i becyn cyllido tair blynedd er mwyn i CNC sefydlu Tîm Rhaglen Diwygio Rheoleiddio Gwastraff newydd, gan weithio ochr yn ochr â thimau Polisi a Dulliau Gwastraff i sicrhau bod CNC yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau statudol fel y corff rheoleiddio. Rydym yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, Defra a'r asiantaethau amgylcheddol eraill i ddylanwadu ar y diwygiadau rheoleiddio ac rydym yn ystyried rhai dulliau newydd o ganfod a darparu adnoddau ar gyfer y gwaith hwn.
46. Mae'r diwygiadau blaenorriaeth uchel yn cynnwys:
 - Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am ddeunydd pacio, batris, offer trydanol gwastraff a thecstilau - i gynyddu dyletswyddau cynhyrchwyr nwyddau o'r fath i dalu'r costau rheoli diwedd oes net llawn ar gyfer y deunydd pacio y rhoddant ar y farchnad.
 - Cyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes – i roi dyletswyddau ar berchnogion brand cynwysyddion diodydd untro i roi ernes y gellir ei had-dalu ar boteli a chaniau diodydd y rhoddant ar y farchnad.
 - Rheoliadau Ailgylchu Deunyddiau Diwygiedig – byddant yn cynyddu gofynion samplu ac yn cynyddu nifer y Cyfleusterau Adfer Deunyddiau diffiniedig yng Nghymru o ddeuddeg i dros 100 o bosibl.
 - Cyflwyno Rheoliadau Ailgylchu i Fusnesau a'r Sector Cyhoeddus - i gynyddu'r gofynion ar sefydliadau a busnesau i wahanu gwastraff yn ei darddiad a chynyddu cyfraddau ailgylchu.

- Cludo gwastraff ar draws ffiniau – i dynhau'r mesurau rheoli mewn perthynas ag allforion gwastraff.
 - Adolygiad o esemttiadau gwastraff - i ddiwygio'r ddeddfwriaeth bresennol, sefydlu mesurau rheoli tynnach a chaniatáu i'r rheoleiddiwr gyflwyno taliadau.
47. Bydd angen gwneud newidiadau sylweddol o fewn CNC i fodloni disgwyliadau'r Rhaglen ExPR, gan gynnwys, er enghraifft: dylunio ein dull rheoleiddio a recriwtio i dimau rheoleiddio gwastraff; diweddu i bolisi, gweithdrefn a dogfennau canllaw; dylunio cynlluniau TG a chodi tâl newydd; a newid diwylliannol o ran pwy sy'n rheoleiddio'r diwydiant gwastraff a sut. Mae'r diwygiadau sy'n ymwneud ag Esemttiadau Gwastraff a Chludo Gwastraff ar draws Ffiniau (TFS) yn cael eu harwain gan y tîm Polisi Gwastraff.
48. Bydd tîm rhaglen newydd CNC yn nodi ac yn rheoli'r effeithiau a'r risgau ar draws yr holl ddiwygiadau o dan raglen ExPR Llywodraeth Cymru ac yn datblygu'r modelau cyflenwi newydd sydd eu hangen i gyflawni ein dyletswyddau rheoleiddio. Oherwydd cyflymder, maint a chymhlethdod y diwygio ac yn unol â gweithdrefnau Swyddfa Rheoli'r Rhaglen (PMO), bydd Bwrdd y Rhaglen Diwygio Rheoleiddio Gwastraff yn cael ei sefydlu i gefnogi gwaith y tîm.

Materion Gweithredol

Parcffordd Caerdydd \ Llynnoedd Hendre

49. Rydym wedi rhoi ein cyngor yn y gorffennol ar effeithiau amgylcheddol tebygol parc busnes arfaethedig Parcffordd Caerdydd a datblygiad yr or saf reilffordd. Roedd ein hymatebion yn ystyried yr effaith y byddai'r datblygiad yn ei chael ar rywogaethau a warchodir, safleoedd dynodedig a pherygl llifogydd, a chawsant eu cynnwys yn llawn yn Adroddiad y Pwyllgor Cynllunio ar wefan Pwyllgor Cynllunio Cyngor Caerdydd dyddiedig 6 Ebrill 2022.
50. Er bod y Cyngor yn barod i ganiatáu'r cais, mae bellach wedi'i 'alw i mewn' gan Lywodraeth Cymru. Nid yw hyn yn herio rhinweddau'r achos na phenderfyniad yr Awdurdod Cynllunio Lleol; mae'n weithdrefn yng hylch a yw'r achos yn bodloni meinu prawf penodol, sy'n golygu y byddai'n cael ei bennu'n well gan Weinidogion. Bydd y cynnig nawr yn cael ei ailasesu gan Arolygydd Cynllunio a gwneir argymhelliaid i'r Gweinidog, a fydd yn gwneud penderfyniad terfynol ar a ddylid rhoi caniatâd cynllunio ai peidio.

Prosiectau Corsydd Crynedig LIFE a Pedair Afon LIFE

51. Ym mis Hydref, cafodd prosiectau Corsydd Crynedig LIFE a Pedair Afon LIFE eu lansio'n ffurfiol, a disgwyli'r dda redeg am bum mlynedd hyd at ddiwedd 2026.
52. Cynhaliwyd lansiad Pedair Afon LIFE gan Goleg Sir Gâr yn Llanelli. Roedd tua wyt h deg o gynrychiolwyr yn bresennol, gan gynnwys y Gweinidog a'n partneriaid

prosiect, Dŵr Cymru, Coed Cymru ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Bydd y prosiect yn defnyddio arferion gorau ar gyfer creu coetir ar lan afon, rheoli tir amaethyddol yn gynaliadwy, ymgysylltu â'r gymuned, rheoli adnoddau dŵr a thechnegau adfer afonydd ar sail natur.

53. Bydd cyllideb gwerth £9 miliwn yn arwain at adfer nodweddion dŵr croyw afonydd Wysg, Tywi, Teifi a Chleddau, gan wella cynefinoedd i rywogaethau megis llysywen bendoll yr afon, eog, herlyn a chregyn gleision perlog dŵr croyw. Mae'r prosiect yn ariannu gwaith uwchraddio mawr yng nghylchfauster bridio a magu deorfa Cynrig CNC, fel rhan o nod y prosiectau i ailsefydlu poblogaethau hyfyw cregyn gleision perlog dŵr croyw sydd mewn perygl difrifol yn y De.
54. Bydd y bartneriaeth hefyd yn arwain at gyflwyno prosiectau Gorsaf dywydd Tywydd Tywi, gan osod nifer o orsafoedd tywydd ar draws y dalgylchoedd ac ap i gyd-fynd â hi i gefnogi ffermwyr i gynllunio gweithgareddau amaethyddol yn unol â'r amodau tywydd ar y pryd.
55. Ar wahân i hynny, nod prosiect Corsydd Crynedig LIFE yw adfer mawndiroedd, corsydd crynedig a'u tirweddau gwlyptir ehangach i statws cadwraeth ffafriol. Y prif ffocws yw corsydd crynedig ac mae saith safle prosiect yng Nghors Crymlyn, Tir Comin Gogledd-orllewin Sir Benfro, Preseli, Rhos Goch, Corsydd Eifionydd, Gweunydd Blaencleddau a Chors Caron. Mae'r cynefin wedi'i asesu fel 'anffafriol' yn y safleoedd hyn. Mae amodau gwael yn aml yn cael eu hachosi gan y tir sy'n cael ei or-bori gan anifeiliaid, tra bod prinder tir pori ar rai safleoedd wedi arwain at blanhigion pwysig yn cael eu mygu gan rywogaethau cryfach neu oresgynnol. Ffactorau eraill sy'n effeithio ar y safleoedd yw rhoi'r gorau i reoli tir, draenio gwael a llygredd eang.
56. Bydd y prosiect yn mynd i'r afael ag amodau dŵr gwael drwy adfer systemau draenio a llif hanesyddol. Gydol oes y prosiect, bydd 65 cilometr o ffensys a seilwaith arall yn cael eu gosod ar draws y safleoedd er mwyn caniatâu'r lefelau cywir o dir pori cynaliadwy a chefnogi metaboblogaethau britheg y gors, sy'n dirywio. Bydd lladd gwair, crafu a chloddio yn digwydd i gael gwared ar lystyfiant a rhywogaethau goresgynnol digroeso sy'n mygu'r planhigion a'r mwsoglau pwysig sy'n creu corsydd crynedig. Bydd ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid ac â'r gymuned yn cyd-fynd â'r gwaith arfaethedig i godi lefelau dealltwriaeth, gwerthfawrogiad a mabwysiadu'r technegau a ddefnyddir i adfer a chynnal pob un o'r safleoedd.
57. Roedd tua hanner cant o bobl yn bresennol yn nigwyddiad lansio prosiect Corsydd Crynedig LIFE yng Nghanolfan Ymwelwyr Crymlyn, gan gynnwys y Gweinidog a'n partneriaid prosiect, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Arfordir Penfro ac Eryri a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Cynhelir cyfarfod cyntaf y grŵp llywio ym mis Tachwedd ac mae'r ymgysylltiad cychwynnol â rhanddeiliaid allweddol yn parhau; mae cylchlythyr cyntaf wedi'i gyhoeddi hefyd.

58. Yn ddiweddar, estynnwyd Prosiect Cyforgorsydd Cymru hyd at 31 Mawrth 2024.

Rheoli Perygl Llifogydd ar Afon Taf

59. Yn ystod stormydd mis Chwefror 2020, effeithiodd llifogydd ar dros 1,500 o dai yn nalgylch afon Taf. Fel dalgylch serth sy'n ymateb yn gyflym, gyda llawer o'r gorlifdir wrthi'n cael ei ddatblygu, mae'n anodd rhagweld sut y gall pob awdurdod rheoli perygl llifogydd reoli digwyddiadau storm o'r maint hwn yn well yn y dyfodol, o ystyried maint a graddfa'r perygl llifogydd a'r effaith posibl ar leoliadau eraill.
60. Felly, rydym yn dechrau gweithio ar brosiect Uwchgynllun Llifogydd Strategol, a fydd yn defnyddio dull cyfannol, ar draws y dalgylch o reoli perygl llifogydd (FRM). Bydd yn cael ei arwain gan CNC fel yr awdurdod sydd â'r cylch gwaith ar draws yr ardal gyfan, mewn cydweithrediad ag awdurdodau rheoli perygl llifogydd (RMAs) eraill, fel partneriaid hanfodol. Bydd y dull gweithredu'n sicrhau bod perygl llifogydd yn cael ei ystyried ar y raddfa briodol, a bod cyfleoedd i reoli risg yn cael eu cynyddu drwy gyflawni gweledigaeth gyffredin hirdymor sy'n pontio ffiniau awdurdodau unedol, gan fanteisio i'r eithaf ar wariant arian cyhoeddus.
61. Y canlyniad bwriedig fydd rhaglen gynhwysfawr o brosiectau cydgysylltiedig arfaethedig ar raddfa dalgylch i'w darparu ar y cyd gan yr awdurdodau rheoli perygl llifogydd.
62. Gwnaethom ddechrau ein hymgysylltiad cyhoeddus ym Mwrdd Perygl Llifogydd Strategol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a byddwn yn mynd ati nawr i gyfarfod ag awdurdodau lleol, Dŵr Cymru a phartneriaid posibl eraill. Bydd ymgysylltu â ffocws yn ceisio sicrhau a ffurfioli cydweithio hirdymor y prosiect gan bartneriaid.
63. Mae llinell amser ddangosol ar gyfer y prosiect i'w gweld isod, ac mae cynllun prosiect amlinellol ar gael os oes angen:
 - Hydref 2022 – Dechrau ymgysylltu â'r holl bartneriaid posibl; datblygu dull prosiect
 - Tachwedd 2022 - Datblygu Cylch Gorchwyl drafft
 - Ch4 2022 – Achos Cyfawnhad Busnes GW3
 - Mawrth 2023 – Ymgysylltu'n rheolaidd â phartneriaid; casglu data; dadansoddi opsiynau
 - Ch1 2024 - Uwchgynllun drafft cychwynnol i'w adolygu
 - Mawrth 2024 – Datblygu'r rhaglen Rheoli Perygl Llifogydd

- Ch4 2024 – Uwchgynllun Terfynol i'w adolygu
 - Ch2 2025 – Rhyddhau'r Uwchgynllun; Lansio'r rhaglen Rheoli Perygl Llifogydd
64. Er bod hon yn weledigaeth strategol, hirdymor ar gyfer y dalgylch, byddwn wrth gwrs yn parhau gyda'n rhaglen waith yn y dalgylch. Bydd cynhyrchu'r Uwchgynllun yn golygu ein bod yn gweithio'n llawer agosach gyda'r Awdurdodau Rheoli Perygl eraill ac, os daw unrhyw fanteision i'r amlwg, byddwn yn ymchwilio i'w dichonoldeb ar gyfer prosiectau annibynnol, y tu allan i'r un hon.

Datgarboneiddio ym Mhenfro

65. Ym mis Hydref, cyfarfu staff CNC â Chanolfan Sero Net Penfro (PNZC) RWE, lle maent yn datblygu opsiynau ar gyfer datgarboneiddio ei Gorsaf bŵer nwyr naturiol 2.2 GW ym Mhenfro; gall yr orsaf hon gynhyrchu dros 5 miliwn tunnell o CO₂ y flwyddyn ar ei phen ei hun. Mae'r lleoliad yn cynnig y fantais unigryw o fod o fewn hyb diwydiannol a chreu cyfleoedd cydweithio gyda phartneriaid o fewn Clwstwr Diwydiannol De Cymru (SWIC) sydd, gyda'i gilydd, yn cwmpasu'r gadwyn gwerth carbon isel lawn, o gludiant llongau a storio CO₂ i gyflenwi hydrogen glân. Mae llawer o'r diwydiannau hyn eisoes yn dal trwyddedau ac yn cael eu rheoleiddio gan CNC.
66. Ar hyn o bryd, mae'r PNZC yn gweithio ar dair elfen benodol yn yr ymgyrch i gyflawni Sero Net. Yn gyntaf, datgarboneiddio Gorsaf Bŵer Penfro, gan gynnwys astudiaethau dichonoldeb dal a storio carbon ac ymchwilio i losgi hydrogen yn yr orsaf bŵer yn lle nwyr naturiol. Yn ail, cynhyrchu hydrogen gwyrdd, gan gynnwys astudiaethau dichonoldeb ar gyfer electroleiddiwr 'braenaru' 100-300 MW ar safle Penfro gan hefyd edrych ar gyfleoedd ar raddfa GW. Yn olaf, datblygiad gwynt arnofiol ar y môr yn y Môr Celtaidd (hyd at 1 GW).
67. Pe bai'n llwyddiannus, byddai Sir Benfro'n gartref i'r prosiect datgarboneiddio mwyaf yn Ewrop, gan ddenu buddsoddiad o hyd at £4 biliwn i'r ardal. Bydd prosiectau ar y raddfa hon yn gofyn am fewnbynnau gan wahanol adrannau o CNC, gan gynnwys rheoleiddio, trwyddedu (morol a diwydiant) a chynllunio. Dim ond un prosiect yw hwn fel rhan o'r daith i ddatgarboneiddio yng Nghymru ac, ar hyn o bryd, rydym yn reciwtio staff ychwanegol i ymgysylltu â'r diwydiant yn gynnar er mwyn sicrhau bod prosiectau'n ystyried yr opsiynau amgylcheddol gorau, yn cael y caniatâd cywir ac yn chwilio am gyfleoedd i sicrhau manteision lluosog.

Cyhoeddi Trwydded Kronospan wedi'i Chydgrynhau

68. Ar 4 Hydref, cwblhaodd CNC y gwaith o amrywio a chydgrynhau'r ddwy drwydded bresennol ar gyfer safle Kronospan yn y Waun, a gyhoeddwyd yn flaenorol gan CNC a CBS Wrecsam. Erbyn hyn, ni yw'r unig reoleiddiwr amgylcheddol ar gyfer

y gosodiad hwn a byddwn yn cynnal yr holl swyddogaethau rheoleiddio yn y dyfodol mewn perthynas â'i drwydded.

69. Cyflawnwyd y gwaith hwn mewn ymateb i gyfarwyddyd Llywodraeth Cymru i CNC yn 2018 yn gofyn am gydgrynhoi'r drwydded ac i CNC fod yr unig reoleiddiwr. Rydym wedi cyhoeddi cyfathrebiadau allanol yn cadarnhau'r broses o gydgrynhoi'r drwydded a'n rôl reoleiddio yn y dyfodol.

Cyhoeddi Amrywiad Trwydded Drumcastle

70. Rydym wedi cyhoeddi'r amrywiad trwydded ar gyfer safle o Ddiddordeb Mawr i'r Cyhoedd yng Nghyfleuster Prosesu Gwastraff Nine Mile Point, Cwmfelinfach, Caerffili ar 13 Hydref. Cyhoeddwyd y drwydded ar gyfer y safle hwn yn flaenorol i Hazrem Environmental yn dilyn eu hapêl i'r Arolygiaeth Gynllunio yn 2017. Fe'i trosglwyddwyd i Drumcastle ym mis Ionawr 2022.
71. Er na fu erioed yn weithredol, mae'r safle wedi parhau i fod o ddiddordeb mawr i'r cyhoedd a gwleidyddion oherwydd ei effaith amgylcheddol dybiedig ar y gymuned. Mae'r pryderon hyn yn cynnwys ansawdd aer, sŵn ac allyriadau ac arogleuon posibl.
72. Mae'r amrywiad yn cael gwared ar hylosgi nwy naturiol ar gyfer sychu gwastraff drymiau a'r ocsidydd thermol adfywiol o'r broses. Dyma'r brif agwedd a gyfrannodd at allyriadau NOx (nwy ocsid nitrig a nitrogen deuocsid) pan benderfynwyd ar gais Hazrem, felly mae'r amrywiad yn dileu'r effaith a'r risg. Mae'r broses ddiwygiedig yn ychwanegu hidlydd carbon actifedig, a ddyluniwyd i drin arogl o'r aer a dynnwyd o unig bwynt allyriadau'r adeilad.

Materion Mewnol

Cynhadledd Tystiolaeth Fewnol

73. Cynhaliwyd ein trydedd Cynhadledd Tystiolaeth Fewnol yng Nghaerdydd ddiwedd mis Hydref. Y gynhadledd hon oedd y gyntaf o'i bath i ni ei chynnal yn y cnawd ac roedd yn gyfle gwych i bobl ailgysylltu â chydweithwyr a ffrindiau o'r byd academaidd. Cafwyd cyfle i rannu cyfoeth o wybodaeth am sut rydym yn troi tystiolaeth yn bolisi, a chafwyd siaradwyr gwadd rhagorol megis Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol sydd ar fin gadael y swydd, Sophie Howe, a Gideon Henderson, Prif Gynghorydd Gwyddonol Defra. Roedd yn ddigwyddiad didorol i brocio'r meddwl a hoffwn longyfarch yr holl staff a gyflwynodd a'r tîm Tystiolaeth am lwyddiant y digwyddiad.

Natur a Ni: Pa ddyfodol y carem ei weld ar gyfer ein hamgylchedd naturiol?

74. Mae canfyddiadau'r cam cyntaf wedi'u dadansoddi a'u cyhoeddi ar ein gwefan a <https://freshwater.eventscase.com/CY/Natureandus> fel adroddiad terfynol, gyda

chymorth fideo ac adroddiad cyfranogiad. Rydym wedi rhoi sylw i'r cyhoeddiad ar y cyfryngau cymdeithasol, ac mae wedi'i anfon at bobl a gymerodd ran yn y cam cyntaf. Bydd y data crai hefyd ar gael i eraill yn y dyfodol agos.

Gweithgarwch Cam 2

75. Tynnodd y cam cyntaf sylw at y ffaith bod awydd clir gan bobl ledled Cymru i lywio dyfodol mwy cadarnhaol ar gyfer byd natur a chymunedau lleol. Dyfeisiodd y tîm Natur a Ni naw datganiad yn seiliedig ar y themâu allweddol o Gam 1 sy'n adlewyrchu sut beth allai bywyd fod yn y dyfodol. Rydym wedi bod yn profi'r datganiadau hyn gydag aelodau'r cyhoedd rhwng mis Awst a mis Hydref, drwy arolwg dienw mewn digwyddiadau cyhoeddus am ddim a thrwy grwpiau ffocws gyda grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yng Nham 1. Anfonwyd yr arolwg hefyd at holl ymatebwyr Cam 1 ac rydym wrthi'n dadansoddi'r canfyddiadau ar hyn o bryd.
76. Cynhaliwyd gweithdy gyda chyrff cyhoeddus ym mis Medi i drafod cyfraniad dinasyddion ac i fynd i'r afael â'r argyfyngau natur a hinsawdd yn fwy eang. Rydym yn cynnal digwyddiadau dilynol i gynnal y momentwm ac i ddatblygu camau gweithredu.

Cynulliad dinasyddion

77. Dymunwn ddod â'r holl sgyrsiau at ei gilydd mewn cynulliad dinasyddion i'w gynnal ym mis Chwefror 2023. Dyma fydd rôl a diben y cynulliad dinasyddion:
 - Ystyried y dystiolaeth ar yr argyfyngau hinsawdd a natur, a safbwytiau'r cyhoedd rydym wedi'u cipio hyd yma drwy Natur a Ni.
 - Cytuno ar y weledigaeth ar y cyd ar gyfer amgylchedd naturiol Cymru.
 - Argymhell camau y gall y cyhoedd eu cymryd nawr, a sut y gall sefydliadau eraill (gan gynnwys llywodraeth genedlaethol a lleol, CNC, cyrff cyhoeddus a busnesau) gefnogi'r camau gweithredu hyn.
 - Argymhell sut y gallwn gynnwys dinasyddion yn well wrth gyfleu'r weledigaeth ac annog camau gweithredu.
78. Dyfarnwyd dau dendr i gefnogi'r gwaith hwn ac rydym wedi dechrau recriwtio ar gyfer Panel Cynghori'r Cynulliad drwy ein Grŵp Cynghori presennol a rhwydweithiau ehangach. Mae tri chyfarfod Panel Dwys ar y gweill ar gyfer mis Tachwedd i gyd-ddylunio'r cynulliad gyda'r grŵp hwn.

Gweithio gyda'r Celfyddydau

79. Rydym wedi bod yn ehangu'r ystod o brosiectau celfyddydol a ariennir gan CCC sy'n cefnogi'r ymgysylltiad â Natur a Ni. Bydd allbynna'u'r gwaith hwn yn helpu i gyfleo'r gwaith a wnaed gennym i aelodau'r cynulliad, yn ogystal â chyfathrebu a chefnogi'r weledigaeth derfynol.

Gwaith ehangach – People's Plan for Nature

80. Mae Uwch Gynghorydd Arbenigol a Gweithredwr Rhaglen Natur a Ni yn aelodau o Grŵp Cynghori People's Plan for Nature, ac rydym yn cysylltu i sicrhau bod y ddwy fenter yn adeiladu ar gryfderau ei gilydd.

Y camau nesaf

81. Dros yr wythnosau nesaf, byddwn yn dadansoddi allbynna'u'r ymgysylltiad Cam 2. Rydym yn gweithio gydag OB3 a'n tîm Tystiolaeth i gytuno ar fframwaith ar gyfer yr adroddiad a'r ffyrdd gorau o ddelweddu'r canfyddiadau. Byddwn yn cytuno ar y llinell amser a'r gwaith cynllunio ar gyfer y cynulliad dinasyddion ac yn paratoi ar gyfer cyfarfodydd y Panel Cynghori.

Adfywio

82. Mae papur opsiynau sy'n archwilio'r cyfleoedd a gynigir gan doriadau prydles sydd ar ddod wedi'i gyhoeddi, ac mae achos busnes yn cael ei ddatblygu. Fel rhan o'r gwaith o adfywio'r strategaeth llety, caewyd swyddfa Llys Cantref yn Nhreffynwy ym mis Medi.
83. Mae ein llif gwaith Cefnogi Pobl wedi cyhoeddi ystod o bolisiau pobl drafft i sicrhau eu bod yn gyfredol, yn galluogi ffyrdd newydd o weithio ac yn cefnogi gweithio hybrid. Mae'r rhain bellach yn destun ymgynghoriad.
84. Mae ein llif gwaith Gofod Hyblyg yn cwblhau gwaith dylunio ar gyfer lleoedd gwaith hyblyg mewn pump o'n swyddfeydd. Mae disgwyl i'r gwaith ddechrau darparu'r gofodau hyn ddiwedd yr hydref / dechrau'r gaeaf.
85. Mae cynllun aberthu cyflog staff ar gyfer cerbydau trydan hefyd yn cael ei ddatblygu. Y gobaith yw y bydd hyn yn lleihau rhai o'n hallyriadau cymudo.

Cynllunio Busnes a Rheoli Perfformiad

86. Er mwyn cefnogi gweithredu'r Cynllun Corfforaethol newydd o fis Ebrill y flwyddyn nesaf, rydym wedi cyflwyno dau brosiect i wella ein gwaith cynllunio busnes a rheoli perfformiad ehangach. Nod y prosiect cyntaf yw datblygu cerdyn sgorio cytbwys ar gyfer craffu ar iechyd sefydliadol ar draws sawl dangosydd allweddol. Penodwyd Turner & Townsend Consultants ac maent yn cwblhau cam darganfod yr ymgysylltiad ag LT, cyn paratoi cerdyn sgorio drafft ym mis Rhagfyr i'w brofi.

87. Rydym yn cydnabod ein bod ni fel sefydliad yn treulio gormod o amser yn canolbwytio ar y broses cynllunio busnes flynyddol. Mae'r Fframwaith Llywodraethu newydd, gyda'r symud i lythyr cylch gwaith tymor y Llywodraeth, yn golygu bod cyfle gwirioneddol i symleiddio ein dull gweithredu, gan gynnwys y rhwyngwyneb gyda'r gwasanaeth a'r cynlluniau Lle ategol. Wrth wneud hyn, mae angen i ni ail-ddehongli diben y gwahanol ddogfennau cynllunio hyn ac adeiladu ar y cynnydd rydym wedi'i wneud o ran datblygu'r Cytundebau Lefel Gwasanaeth. Mae'r gwaith hwn wedi'i gynnwys yn y fanylob Cyflenwr Strategol, ac rydym yn disgwyl dechrau gweithio gyda'r ymgynghorwyr o ddechrau mis Tachwedd.

Cyfathrebiadau a Digidol

88. Mae rheoli ceisiadau gan y cyfryngau a materion sy'n gysylltiedig ag ansawdd dŵr yn parhau i ddominyddu gweithgarwch y tîm, gyda llawer iawn o waith wedi'i wneud wrth baratoi ar gyfer cyfweliadau manwl megis BBC Investigates, a ddarlleddwyd ar 22 Hydref. Mae effaith y newid yn yr hinsawdd ar Fairbourne yn parhau i ddenu diddordeb, gyda chyfweliadau wedi'u cynnal gyda rhaglen The One Show y BBC a Drych ar S4C.
89. Cefnogodd y tîm Cyfathrebu lansiad y ddu broiect LIFE newydd a bu'n gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn fewnol ac yn Llywodraeth Cymru i reoli cyfathrebiadau ynghylch cyhoeddi argymhellion Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth. Rhoddwyd cymorth ysgrifennu arall i'r uwch dîm hefyd ar gyfer digwyddiadau yn ystod wythnos Cynhadledd Bioamrywiaeth Cymru.
90. Cafodd cyfathrebu rhagweithiol ynghylch proiect Acorn Antics a chynhwysiant Ynys Llanddwyn yn y rhestr 100 Safle Treftadaeth Ddaearegol fel rhan o Ddiwrnod Geoamrywiaeth Ryngwladol UNESCO sylw eang yn y cyfryngau. Rydym hefyd wedi hyrwyddo ein gwaith partneriaeth i gwympo coed sydd wedi'u heintio, cadw hen weithfeydd cloddio Rhufeinig yng Nghoedwig Mwyngloddiau Aur Dolaucothi, a'r ffaith bod canolfannau ymwelwyr Bwlch Nant yr Arian ac Ynyslas wedi cadw eu statws o dan y Cynllun Sicrhau Ansawdd Atyniadau i Ymwelwyr. Rydym yn parhau i hyrwyddo ein hymateb i achosion o lygredd a chanlyniadau erlyniadau.
91. Wrth edrych ymlaen, byddwn yn gweithio gyda chydweithwyr ar draws y DU i godi ymwybyddiaeth o'r materion sy'n gysylltiedig â'r ddu COP. Bydd gennym stondin fach yn y Ffair Aeaf ar 28 a 29 Tachwedd. Byddaf yn mynychu ac yn cael cyfarfodydd gyda'r Undebau Ffermio.
92. Rydym wedi cwblhau cam cyntaf gwelliannau cynnwys digidol yn sgil yr Archwiliad Dwfn Gweinidogol, gan gyhoeddi gwell cynnwys sy'n canolbwytio ar y defnyddiwr ar gyfer creu coetir. Rydym bellach yn defnyddio canlyniadau'r ymchwil gyda defnyddwyr i fynd i'r afael â materion mwy sylfaenol gyda phrosesau a systemau Llywodraeth Cymru a CNC, gan weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru.

Rhagolwg

Dydd Mercher 23 Tachwedd – Digwyddiad ar y cyd rhwng y Cyrff Cadwraeth Natur yn y Gymdeithas Frenhinol

Dydd Llun 28 Tachwedd – Ffair Aeaf, Llanelwedd

Dydd Iau 1 Rhagfyr – Y Pwyllgor Pobl a Thaliadau

Dydd Iau 8 Rhagfyr – Y Pwyllgor Cyllid

Dydd Mercher 14 Rhagfyr – Galwad Diweddarriad y Bwrdd

Dydd Iau 15 Rhagfyr – Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Dydd Iau 12 Ionawr – Y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd

Dydd Mawrth 17 Ionawr – Y Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth

Dydd Iau 26 Ionawr a dydd Gwener 27 Ionawr – Cyfarfod Bwrdd CNC

Dydd Mawrth 6 Mehefin – Digwyddiad yn y Senedd

Papur Bwrdd CNC

Dyddiad y cyfarfod:	16 Tachwedd 2022
Teitl y papur:	Y Pwyllgor Cyngori ar Dystiolaeth – Diweddarriad
Cyfeirnod y Papur:	22-11-B06
Noddir y papur gan:	Peter Rigby – Cadeirydd y Pwyllgor Cyngori ar Dystiolaeth
Cyflwynir y papur gan:	Peter Rigby
Diben y papur	Gwybodaeth
Crynodeb	Nodi'r diweddarriad

Mater

- Mae'r papur hwn yn cyflwyno'r diweddaraf i'r Bwrdd yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Cyngori ar Dystiolaeth a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2022. Bydd modd anfon cofnodion y cyfarfod at unrhyw aelod o'r Bwrdd sydd â diddordeb yn eu darllen.

Diweddarriad

Busnes Safonol y Pwyllgor

- Rhoddwyd y diweddaraf i'r Pwyllgor Cyngori ar Dystiolaeth ynglŷn â'r Rhaglen Mawndiroedd a dywedwyd bod trafodaethau ar y gweill ynglŷn â chostau, oherwydd roedd y Pwyllgor Cyngori ar Dystiolaeth wedi holi am hyn yng nghyfarfod mis Mehefin. Bydd trafodaeth bellach ynglŷn â'r Rhaglen Mawndiroedd yn cael ei chynnal mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Dynodi Parc Cenedlaethol

- Cafodd y Pwyllgor Cyngori ar Dystiolaeth drosolwg o sefyllfa bresennol y rhaglen Dynodi Parc Cenedlaethol. Mae'r trafodaethau'n parhau gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r ardal chwilio awgrymedig.
- Trafododd y Pwyllgor Cyngori ar Dystiolaeth gynnwys y diweddarriad gan ystyried materion yn ymwneud â'r broses ddynodi.

Dadansoddeg Data yn CNC: Cyfleoedd a Heriau

5. Cyflwynwyd trosolwg o'r cyfleoedd a'r heriau gwahanol sy'n ymwneud â dadansoddeg data a rhoddodd y Pwyllgor Cyngori ar Dystiolaeth gyngor ynglŷn â sut gellid eu rheoli. Dyma'r meysydd a gyflwynwyd mewn perthynas â dadansoddeg data: Sut gall ystadegau Bayes helpu i feintoli ansicrwydd ar gyfer dosbarthiad y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr; rhaglen fonitro a Dangosfridd Data Ansawdd Dŵr Afon Gwy; a rhagfynegiadau dysgu peirianyddol ar gyfer ffosffadau afonydd mewn cyrff dŵr na chânt eu monitro.
6. Trafododd y Pwyllgor Cyngori ar Dystiolaeth y bwlch sgiliau yn y maes dadansoddeg data o fewn CNC a sut gellid cael gafael ar yr adnoddau a'r sgiliau angenrheidiol. Hefyd, trafodwyd y defnydd a wneir o TGCh yn y maes hwn a sut caiff ffyrdd newydd o hwyluso newidiadau mewn meddalwedd eu canfod.

Symleiddio Dulliau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr

7. Cyflwynwyd trosolwg i'r Pwyllgor Cyngori ar Dystiolaeth o Ddosbarthiad y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, yr elfennau o dan sylw, sut gellid ei ddefnyddio yn CNC, a'r heriau. Dangoswyd system ar-lein CNC ar gyfer y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a thrafododd y Pwyllgor sut byddai modd datblygu'r system hon yn y dyfodol, a beth oedd y blaenoriaethau.

Trefniadau Llywodraethu'r Pwyllgor Cyngori ar Dystiolaeth / Unrhyw Fater Arall

8. Trafodwyd a chymeradwywyd Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Cyngori ar Dystiolaeth.

Papur Bwrdd

	Manylion y Papur
Teitl y Papur:	Diweddariad Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd (FRMC)
Cyfeirnod y Papur:	22-11-B07
Noddir y Papur gan:	Julia Cherrett – Cadeirydd Dros Dro FRMC
Cyflwynir y Papur gan:	Julia Cherrett
Diben y Papur	Gwybodaeth
Argymhelliaid	Nodi'r diweddariad

Mater

- Mae'r papur hwn yn rhoi diweddariad i'r Bwrdd yn dilyn y sesiwn drafod strategol a chyfarfod FRMC 21 Hydref 2022. Gall cofnodion y cyfarfodydd hyn fod ar gael i unrhyw aelod o'r Bwrdd sydd â diddordeb.
- Mae'r materion y dylid eu dwyn i sylw'r Bwrdd cyfan ym marn Cadeirydd FRMC i'w gweld isod.

Diweddariad

Rhaglen Weithredu Adfer ac Adolygu Llifogydd

- Rhoddwyd diweddariad ar y Rhaglen Adfer ac Adolygu Llifogydd. Parhaodd y statws Coch Melyn Gwydd (RAG) i fod yn Felyn, gan adlewyrchu'r heriau o ran reciwtio, hyfforddi staff, a thri cham gweithredu hwyr. Trafodwyd y materion hyn gan y Pwyllgor ac eglurwyd y dull o olrhain y camau a drosglwyddwyd i'r tîm Stiwardiaeth Tir. Gofynnodd FRMC am ychwanegu'r buddion y byddai cymuned yn disgwyl eu gweld o'r camau gweithredu at yr adroddiad.

Rhaglen Gyfalaf

- Cafwyd diweddariad ar y Rhaglen Gyfalaf, gyda chrynodeb o gylchoedd oes a phwyntiau penderfynu'r prosiectau. Byddai trafodaethau'n parhau gyda Llywodraeth

Cymru ynglŷn â'r prosiectau. Croesawodd FRMC awgrym ar gyfer gweithdy hanner diwrnod ar flaenoriaethu.

Rheoli Asedau ac SR02

- Rhoddwyd gwybodaeth i FRMC ynghylch rheoli asedau FRM yng nghyd-destun SR02, a oedd yn cynnwys y duedd gynyddol o asedau llifogydd yn cael statws ffafriol ar y Dangosfwrdd Cynllun Busnes; a chamau gweithredu arfaethedig i leihau'r sgôr SR02. Gofynnodd y Pwyllgor am fwy o sicrwydd ynghylch swm y nifer fach o asedau oeddent yn is na'r cyflwr targed. Eglurodd y tîm Perygl Llifogydd y ffordd yr oedd asedau risg uchel yn cael eu rheoli yng nghyd-destun SR02 a chytunwyd y byddai'r Pwyllgor yn cael manylion mwy ffurfiol.

Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd

- Cyflwynwyd sefyllfa bresennol y Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd (FRMP) i FRMC. Gellid cyhoeddi'r FMRP yn 2023 yn dilyn adborth o'r cyfnod ymgynghori. Nodwyd bod yr ymgynghoriad yn cael ei ddatblygu gyda'r tîm Cyfathrebu, i sicrhau bod y wybodaeth a'r iaith yn hygrych ac yn glir i bawb.

Gofynion Buddsoddi Tymor Hir

- Darparwyd trosolwg o'r Adroddiad Gofynion Buddsoddi Tymor Hir ar gyfer rheoli sylfaen asedau amddiffynfeydd llifogydd yng Nghymru. Roedd yr Adroddiad i'w drafod ymhellach yn y gweithdy arfaethedig y cyfeiriwyd ato uchod.

Prosiect Dinas Dinlle

- Rhoddwyd trosolwg o'r Prosiect i FRMC a rhestr fer o opsiynau i'w hystyried. Cymeradwyodd FRMC yr Achos Amlinellol Strategol ar gyfer Prosiect Dinas Dinlle trwy ohebiaeth.

Unrhyw Fater Arall

- Cymeradwywyd Cylch Gorchwyl FRMC drwy ohebiaeth.
- Yn dilyn y cyfarfod, mynchyddodd FRMC ymweliad safle â Chronfa Ddŵr y Bont-faen sy'n rhan o gynllun amddiffyn rhag llifogydd ar gyfer Afon Ddawan. Roedd y Pwyllgor yn gallu gweld y gwaith cyfalaf a oedd wedi'i wneud mewn ymateb i'r Mesurau Er Budd Diogelwch a nodwyd yn 2019.

Papur Bwrdd

Teitl y papur:	Y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig – Diweddariad
Cyfeirnod y papur:	22-11-B08
Noddir y papur gan:	Dr Rosie Plummer – Cadeirydd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig
Cyflwynir y papur gan:	Dr Rosie Plummer

Diben y papur:	Gwybodaeth
Argymhelliaid:	Nodi'r diweddariad

Mater

1. Mae'r crynodeb hwn yn cyflwyno'r diweddaraf ynglŷn â materion y cred Cadeirydd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig y dylid tynnu sylw'r Bwrdd atynt yn dilyn cyfarfod diwethaf y Pwyllgor a gynhalwyd ar 6 Hydref 2022.

Diweddariad

2. Trafododd y Pwyllgor y diweddaraf ynglŷn â'r Polisi Bioamrywiaeth a'r Archwiliad Dwfn, trefniadau llywodraethu'r Pwyllgor ac eitemau eraill a nodir isod.
3. Cyflwynwyd diweddariad llafar yn ymwneud â chyfarfod diweddaraf Tirweddau Cymru – Landscapes Wales, yn cynnwys agweddau ar yr Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth a'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.
4. Mae'r gwaith recriwtio ar y gweill ac mae Rheolwr Rhaglen wedi'i benodi ar gyfer y Rhaglen Tirweddau Dynodedig. Nodwyd mai'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru sy'n gyfrifol bellach am y Parc Cenedlaethol newydd arfaethedig yn dilyn adolygiad diweddar o gyfrifoldebau Gweinidogion. Mae braslun cychwynnol o'r ardal chwilio wedi'i gwblhau.
5. Cynhalwyd trafodaethau ynglŷn â goblygiadau ehangach. Bydd trefniadau llywodraethu posibl y Parc Cenedlaethol newydd arfaethedig, ynghyd â'r amryfal opsiynau rheoli a llywodraethu, yn cael eu hystyried yn ystod y broses ddynodi.
6. Tynnwyd sylw'r Pwyllgor at ddeiseb a gyflwynwyd gerbron Pwyllgor Deisebau'r Senedd yn galw am ddynodi Mynyddoedd Cambria yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE). Mae hyn yn ddigon i beri i'r mater gael ei drafod gan y Senedd maes o law.

Prosiect Ffosffadau Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA)

7. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor am gynllun gweithredu a ddeilliodd o uwchgynhadledd y Prif Weinidog, sef uwchgynhadledd y cyfrannodd CNC ati; a rhoddwyd gwybod hefyd am oedi o 3 mis mewn perthynas â rhoi Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 ar waith.
8. Trafodwyd offer cyfrifo maethynnau a niwtraliaeth maethynnau. Yn ôl cyngor cyfreithiol a gafodd CNC, nid oes gan CNC bwerau cyfreithiol i fynnu dim byd mwy na niwtraliaeth maethynnau. Fodd bynnag, mae CNC yn edrych yn fanylach ar y maes hwn er mwyn deall pa gyfleoedd a geir yn ei gylch gorchwyl.

Archwiliad Dwfn o Risg Strategol 05

9. Rhoddwyd y diweddaraf i'r Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig ynglŷn â'r Archwiliad Dwfn o Risg Strategol 05. Bu'r aelodau'n craffu ar y mesurau rheoli risgiau, buont yn ystyried pa mor effeithiol yw'r camau arfaethedig o ran lleihau'r risgiau hynny, a hefyd aethant ati i gynnig sylwadau.

Llythyrau Rhybuddio: Safleoedd Gwarchodedig

10. Adolygodd y Pwyllgor ddau lythyr rhybuddio a gyflwynodd CNC iddo'i hun ynghylch materion yn ymwneud â chylch gorchwyl y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig. Awgrymwyd y byddai CNC yn elwa ar ddefnyddio dull mwy cydgysylltiedig a thraws-sefydliadol, lle gallai ddysgu gwersi ar sail yr hyn a ddigwyddodd.

Cyfarfodydd Hysbysu Safleoedd Gwarchodedig

11. Mae'r Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig wedi neilltuo cyfres o ddyddiadau dros y flwyddyn sydd i ddod ar gyfer cynnal cyfarfodydd ynghylch hysbysu safleoedd gwarchodedig arfaethedig, er mwyn sicrhau y gellir cadw at yr amserlenni angenrheidiol ac ystyried unrhyw wrthwynebiadau annatryst cyn dynodi'r safleoedd.

Papur Bwrdd

Dyddiad y cyfarfod:	16 Tachwedd 2022
Teitl y papur:	Fforwm Rheoli Tir Cymru – Diweddu
Cyfeirnod y papur:	22-11-B09
Noddir y papur gan:	Zoe Henderson, Cadeirydd Fforwm Rheoli Tir Cymru
Paratowyd y papur gan:	Bronwen Martin, Cyngorydd Arbenigol: Rheoli Tir Cymru
Cyflwynir y papur gan:	Zoe Henderson, Cadeirydd Fforwm Rheoli Tir Cymru
Diben y papur	Gwybodaeth

Fforwm Rheoli Tir Cymru

- Caiff cyfarfodydd Fforwm Rheoli Tir Cymru eu cynnal bedair gwaith y flwyddyn, ac maent yn cynnig cyfle i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a sefydliadau eraill sy'n aelodau o'r Fforwm rannu gwybodaeth, nodi materion sydd o ddiddordeb cyffredin a gweithio gyda'i gilydd mewn ffordd gydweithredol ar faterion rheoli tir strategol.

[Cyfoeth Naturiol Cymru – Fforwm Rheoli Tir Cymru](#)

Diweddu

Cyfarfod 5 Medi 2022

- Cynhaliwyd cyfarfod diwethaf Fforwm Rheoli Tir Cymru ar 5 Medi 2022.
- Cyflwynodd Tracey Dunford (CNC) ddiweddu i sôn am dywydd sych. Roedd y diweddu hwn yn cynnwys trosolwg o Grŵp Cyswllt Sychder Cymru a hefyd cynhaliwyd trafodaeth grŵp ddilynol.
- Rhoddodd Brendan Hardiman (CNC) gyflwyniad yn sôn am Effeithlonrwydd Dŵr a thynnodd sylw at waith Grŵp Effeithlonrwydd Dŵr Cymru. Cyflwynwyd crynodeb o'r manteision sy'n perthyn i effeithlonrwydd dŵr ynghyd â rhai dolenni defnyddiol er gwybodaeth. Hefyd, cafodd yr aelodau gyfle i ofyn cwestiynau.

5. Ymunodd Sue Ginley (CNC) â'r cyfarfod i roi trosolwg o Gynllun Corfforaethol CNC a diweddariad yn ei gylch. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau am gyfle i gyflwyno adborth a sylwadau ar Gynllun Corfforaethol CNC.
6. Rhoddodd Nick Thomas (CNC) gyflwyniad byr yn sôn am Rwydweithiau Natur, sy'n rhan o waith CNC i wella cyflwr Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA). Mae'r gwaith hwn hefyd yn canolbwytio ar Gytundebau Rheoli Tir.
7. Cafodd holl aelodau Fforwm Rheoli Tir Cymru gyfle i rannu'r diweddaraf ynglŷn â'u sefydliadau eu hunain.
8. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau am y posibilrwydd o gynnal Cynhadledd Tanau Gwyllt/gweithdy cynllunio Tywydd Eithafol neu Gynhadledd Newid Hinsawdd yn 2023, cyn i'r tymor tanau gwyllt ddechrau ym mis Mawrth. Byddai'r gweithdy/cynhadledd o dan sylw ar gyfer rheolwyr tir, llunwyr polisiau ac ati, a byddai cymysgedd o weithdai, cyflwyniadau a stondinâu i'w cael er mwyn i bobl allu arddangos y gwaith a wnânt o ran cymryd camau ataliol a rheoli tirweddau'n gynaliadwy yng Nghymru. Ar hyn o bryd, mae tîm Llethrâu Llon CNC yn ymchwilio i ble a sut (yn y cnawd gydag elfen hybrid bosibl) byddai modd cynnal y gynhadledd.
9. Bydd cyfarfod nesaf Fforwm Rheoli Tir Cymru yn cael ei gynnal ddydd Llun 5 Rhagfyr 2022.
10. Ar ôl i'r aelodau adolygu'r cofnodion a chytuno'n ffurfiol arnynt, byddant yn cael eu cyhoeddi ar dudalen y Fforwm ar wefan CNC.

Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol

11. Prif ddiben Is-grŵp y Fforwm yw pennu cyfleoedd i ddileu llygredd amaethyddol yng Nghymru gan fynd ati ar yr un pryd i gynnal sector ffermio ffyniannus trwy ddilyn pum thema allweddol (cyngor ac arweiniad, dull gwirfoddol, rheoleiddio, arloesi, a buddsoddi), a gweithio ar y cyd ag amrywiaeth o randdeiliaid amaethyddol ac amgylcheddol.

[Cyfoeth Naturiol Cymru – Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol](#)

Diweddariadau

Cyfarfod 19 Medi 2022

12. Yn dilyn marwolaeth Ei Mawrhydi y Frenhines Elizabeth II, cadarnhawyd y byddai dydd Llun 19 Medi 2022 yn Wyl y Banc ar gyfer Angladd Gwladol Ei Mawrhydi. O'r herwydd, cafodd cyfarfod Is-grŵp y Fforwm ei ohirio a dosbarthwyd diweddariadau ysgrifenedig ymhlið yr aelodau.
13. Roedd y diweddariadau ysgrifenedig ar gyfer mis Medi yn cynnwys gwybodaeth am y canlynol:
 - Adroddiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen Mesurau Amgen Is-grŵp y Fforwm

- Y diweddaraf am Afonydd ACA (Ardaloedd Cadwraeth Arbennig)
- Cynllun Corfforaethol CNC hyd at 2027

Cyfarfod 17 Hydref 2022

14. Yn y cyfarfod hwn cafwyd trafodaeth eang ynglŷn â datganiad ysgrifenedig Lesley Griffiths (y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd) ar y Cytundeb Cydweithio: Llygredd Amaethyddol (a gyhoeddwyd ar 5 Hydref 2022) – [Datganiad Ysgrifenedig: Cytundeb Cydweithio: Llygredd Amaethyddol](#). Roedd yr aelodau'n awyddus i ddeall sut byddai'r datganiad ysgrifenedig a'r camau nesaf yn effeithio ar ffermwyr Cymru. Cafwyd eglurhad gan Lywodraeth Cymru.
15. Rhoddodd Llywodraeth Cymru gyflwyniad yn sôn am Amonia yng Nghymru. Roedd y gyflwyniad hwn yn cynnwys trosolwg o Reoliadau Terfynau Uchaf Allyriadau Cenedlaethol 2018 a chrynodeb o dueddiadau allyrnu amonia yng Nghymru.
16. Ymunodd Caroline Hawkins (CNC) â'r cyfarfod i gyflwyno trosolwg o Gynllun Corfforaethol CNC a diweddariad yn ei gylch. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau am gyfle i gyflwyno adborth a sylwadau ar Gynllun Corfforaethol CNC.
17. Cafwyd trafodaeth grŵp ynglŷn â blaenoriaethau. Cyn y cyfarfod, gofynnwyd i'r aelodau 'beth yw prif flaenoriaethau eich sefydliad o ran llygredd amaethyddol?' a gofynnwyd iddynt rannu un neu ddwy o flaenoriaethau eu sefydliad mewn perthynas â llygredd amaethyddol yng Nghymru (yn cynnwys unrhyw enghreiftiau o gamau a gymerwyd gan eu sefydliad). Pwrpas hyn oedd gwneud yn siŵr bod Is-grŵp y Fforwm yn esblygu ac y bydd ganddo gyfeiriad wrth symud ymlaen ar gyfer mynd i'r afael â llygredd amaethyddol – cyfeiriad a fydd yn bodloni prif themâu'r grŵp. Yn achos y rhai a oedd yn methu mynchyu'r cyfarfod, gofynnwyd iddynt anfon y manylion trwy e-bost fel y gellid eu darllen yn ystod y cyfarfod.
18. Cafwyd diweddariad byr yn ymwneud â Datganiadau o Ddiddordeb ar gyfer y Fenter Ymchwil Busnesau Bach, a gyflwynwyd gyda'r her 'Effeithlonrwydd Maethynnau'. Trafodwyd trosolwg o'r camau nesaf, yn cynnwys sut gellir ariannu'r broses.
19. Bydd cyfarfod nesaf Is-grŵp y Fforwm yn cael ei gynnal ddydd Llun 21 Tachwedd 2022.
20. Ar ôl i'r aelodau adolygu'r cofnodion a chytuno'n ffurfiol arnynt, byddant yn cael eu cyhoeddi ar dudalen Is-grŵp y Fforwm ar wefan CNC.

Papur Bwrdd CNC

Dyddiad y cyfarfod:	16 Tachwedd 2022
Teitl y papur:	Adroddiad ar Berfformiad Cyllid
Cyfeirnod y papur:	22-11-B10
Noddir y papur gan:	Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol
Paratowyd y papur gan:	Rob Bell, Pennaeth Cyllid; Mark Collins, Rheolwr Cyllid Busnes
Cyflwynir y papur gan:	Rob Bell, Pennaeth Cyllid; Mark Collins, Rheolwr Cyllid Busnes
Diben y papur	Cymeradwyo (Newid yn y Rhagolwg) / Trafod (Perfformiad Cyllid)
Crynodeb	<p>Cymeradwyo: Diwygio'r rhagolwg – o £235.6m to £235.8m.</p> <p>Ystyried Perfformiad ariannol hyd at ddiwedd mis Medi 2022.</p>

Cefndir

1. Ceir papur ar wahân ar gyfer unrhyw waith cymeradwyo.

Perfformiad Ariannol hyd at 30 Medi 2022

2. Mae'r Adroddiad Cyllid yn nodi manylion am y cynnydd a welwyd ar draws gwahanol fathau o incwm, gwariant a rhaglenni. Yn Atodiad A, ceir crynodeb o'r negeseuon allweddol mewn perthynas â'r canlynol:

- Perfformiad hyd at ddiwedd mis Medi 2022, o gymharu â'r rhagolwg diweddaraf.
- Risgiau o ran gallu gwario o fewn lefelau ein cyllid.
- Sylwadau yn ôl eithriad ynglŷn â'n cynnydd yn erbyn y rhagolwg ar gyfer gwahanol fathau o wariant.
- Newidiadau yn y rhagolwg.

Mae un rhan o'r adroddiad yn dal i gael ei datblygu – sef dadansoddi costau nad ydynt yn gostau staff.

3. Mewn cyfarfodydd blaenorol, esboniwyd newidiadau sylweddol i'n rhagolygon ar gyfer cyllid/incwm gogyfer y flwyddyn ariannol hon. Mae'r newidiadau hyn yn ymwneud yn bennaf â'r Rhaglen Gyfalaf Llifogydd, Pren a mathau eraill o incwm masnachol. Arweiniodd hyn at leihau'r rhagolwg i £235.6m. Y mis hwn, newidiodd y rhagolwg rhyw fymryn i £235.8m.
4. Roedd yr incwm ar ddiwedd mis Medi yn £100.8m, sef ffigur sydd uwchlaw'r rhagolwg hyd yn hyn (£100.5m) – amrywiant o 0.3%. Roedd y gwariant yn £95.7m yn erbyn rhagolwg o £96.1m – amrywiant o 0.4%, gan gyfateb i 40.6% o'r gyllideb. Er bod y gwariant yn cyd-fynd â'r proffil, rwy'n bryderus y byddwn wedi gorwario erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon am y rhesymau a nodir yn yr adroddiad hwn. Yr adeg hon y llynedd, roedd ein gwariant yn £85.4m (sef 37.6% o'r gyllideb flynyddol).
5. Dyma negeseuon allweddol yn ymwneud â'n perfformiad o ran incwm ar ddiwedd mis Medi:
 - Mae incwm yn sgil pren yn £17.7m ac mae hyn yn cyd-fynd â'r rhagolwg diwygiedig, sef £17.5m; ac ar hyn o bryd, rydym yn rhagweld y bydd yr aldro'n cyrraedd £36m, neu ychydig yn uwch o bosibl. Mae gwerth y pren a gludwyd o goedwigoedd wedi bod rhwng £3m a £3.2m yn ystod pob mis ac eithrio un. Yn amlwg, mae yna risg bellach o gofio'r sefyllfa economaidd bresennol. Byddwn yn cadw golwg fanwl ar y sefyllfa hon.
 - Mae'r holl daliadau parhau wedi'u cyflwyno ar gyfer y flwyddyn ariannol ac rydym wedi gweld ambell gynnydd cymharol fach mewn rhai cyfundrefnau; bydd y rhagolygon yn cael eu diweddaru yn unol â hyn ym mis Hydref.
6. Dyma negeseuon allweddol yn ymwneud â'n perfformiad o ran gwariant:
 - Staff – roedd y gwariant hyd at ddiwedd mis Medi yn £50.5m yn erbyn cyllideb o £51.8m. Mae'r tanwariant yn adlewyrchu'r ffaith bod y lefelau staffio yn rhedeg ar gyfradd swyddi gwag o oddeutu 11% yn erbyn cyllideb o 6%; er, mae nifer fawr o'r swyddi gwag yn swyddi a glustnodwyd ac sy'n ymwneud â phrosiectau. Wedi dweud hyn, rydym wedi gwario £4m yn fwy ar gostau staff nag y gwnaethom yr adeg hon y llynedd. Mae cyfarwyddiaethau wedi bod yn ailflaenoriaethu arbedion cyflogau oherwydd yr effaith a gaiff lefel y swyddi gwag ar gyflawni, gan ystyried ffynhonnell y cyllid.
 - Cyllidebau nad ydynt yn ymwneud â staff – yn gyffredinol, mae'r gyllideb yn debyg iawn i'r gyllideb a welwyd y llynedd ac mae llawer o gostau sefydlog wedi'u cynnwys. Mae hefyd yn cynnwys elfennau mwy amrywiol, megis Gweithrediadau Coedwig. Fel yr oedd y sefyllfa ddiwedd mis Medi, rydym dipyn ar y blaen i'r gyllideb (2%) ac rydym fwy na £2m ar y blaen o gymharu â'n sefyllfa yr adeg hon y llynedd.
 - Yn gyffredinol, rydym wedi pennu cyllideb o £64m ar gyfer prosiectau cyfalaf a refeniw – er bod y ffigur yn is oherwydd y Rhaglen Gyfalaf Llifogydd, mae'n dal i fod 15% yn fwy na'r swm a wariwyd gennym yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf (£55.6m). Rydym wedi gwario £3.6m yn fwy nag y gwnaethom yr adeg hon y flwyddyn ariannol ddiwethaf.
 - Rhaglen Gyfalaf Llifogydd – gan ein bod bellach wedi lleihau'r rhagolwg i £17.0m, mae lefel gyfredol y gor-raglennu yn £3.9m. Mae'r rhaglen yn mynd rhagddi'n dda ac mae'r tîm o'r farn mai'r ffigur hwn yw'r isafswm y

gallwn ei wario. Byddwn yn ystyried gofyn i Lywodraeth Cymru am gynnydd pan fyddwn yn fwy hyderus ynglŷn â'r sefyllfa. Hyd yn hyn, mae'r gwariant yn £5.5m yn erbyn rhagolwg o £4.9m, a hynny yn erbyn cyllideb graidd o £14.5m ar gyfer y rhaglen.

- Rhaglen Gyfalaf nad yw'n Ymwneud â Llifogydd – dyma drydedd flwyddyn y rhaglen hon. Mae'r gwariant yn cyd-fynd â'r gyllideb ar hyn o bryd (£3.1m). Rhagwelir y byddwn yn defnyddio'r gyllideb lawn ar gyfer y flwyddyn. Y gyllideb gyffredinol yw £15.5, a'r canlyniad mwyaf tebygol yw y byddwn yn gwario oddeutu £15.6m.
- Prosiectau a ariennir yn allanol – erbyn hyn mae gennym nifer o brosiectau ar y gweill ar yr un pryd, gan arwain at gyllideb gyffredinol o £8.4m. Y gwariant hyd yn hyn yw £2.3m ac mae'r ffigur hwn rywfaint ar y blaen i'r cynllun (£2m).
- £6.8m yw cyllideb Dylunio ac Arloesi TGCh ar hyn o bryd, a'r gwariant hyd yn hyn yw £2.9m, sef ffigur sydd £0.4m ar y blaen i'r gyllideb – mae gordansgrifio'n broblem o fewn y rhaglen hon eleni a bydd angen rheoli hyn.

7. Cynhwysir y canlynol yn y cyllidebau gwariant:

- Cyllidebau prosiectau heb eu dosbarthu, sef £0.4m (refeniw). Digwyddodd hyn gan fod cyllidebau wedi cael eu dyrannu ar gyfer prosiectau, ond heb gael eu gwarantu, ac felly ni ddyrannwyd codau ar gyfer prosiectau.
- Mae gennym ddarpariaeth ar gyfer y dyfarniad cyflog o 2% (£2.1m), ac mae cyllidebau wedi'u cymeradwyo ar gyfer swyddi nad ydynt eto wedi cael eu creu (£1.2m) – mae hyn yn esgor ar risg o ran cyflawni'r blaenorriaethau hynny ac o ran y gyllideb gyflogau gyffredinol (mae'r rhain yn rhan o'r adolygiad o ragolygon cyflogau sydd ar fin dod i ben).
- Mae lefel ganolog y gor-raglennu oddeutu £4m. Hefyd, ceir swm wrth gefn ar gyfer chwyddiant, sef £0.5m.

Risgiau a chyfleoedd

8. Ceir risg yng Nghofrestr Risgiau'r Gyfarwyddiaeth Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol yn ymwneud â 'gwariant yn ystod y flwyddyn'. Mae hyn hefyd yn cysylltu ag SR01 (Cyllid Annigonol – Y Tymor Canolig). Gan fod ein cyllideb yn fwy eleni, mae'r risg o ran defnyddio'r gyllideb rywfaint bach yn uwch – ond mae'r cynnydd wedi'i ariannu'n bennaf gan gyllidebau rhaglen 'a glustnodwyd' gan Lywodraeth Cymru, ac os llwyddwn i lunio rhagolwg yn ddigon buan, bydd modd i Lywodraeth Cymru gymryd camau priodol.
9. Ar hyn o bryd, mae tri pheth yn rhoi pwysau mawr ar ein cyllideb ac ymdrinnir â'r rhain yn y papur hwn:
 - Gostyngiad mewn incwm pren a barn Llywodraeth Cymru y dylai'r incwm a gawn yn sgil gwerthu Forest Holidays gael ei dynnu o'r Cymorth Grant ychwanegol a addawyd yn y "Llythyr Cysur".
 - Fforddio i dalu dyfarniad cyflog mwy, sef cynnydd o 2% i 4%. Rydym ar fin dirwyn i ben ein hadolygiad o'r gyllideb gyflogau.

- Mae gor-raglennu sy'n werth £4m yn dal i fod yn rhan o'r gyllideb. Nid yw'r gor-raglennu hwn wedi lleihau ac ni cheir arwydd ein bod mewn perygl o danwario. Buaswn yn hoffi i'r ffigur hwn fod yn nes at £2m-3m ar yr adeg hon o'r flwyddyn.

Incwm Pren / Incwm yn sgil gwerthu Forest Holidays

10. Rydym i fod i gael incwm yn sgil gwerthu Forest Holidays, ond nid ydym wedi'i gynnwys eto yn ein rhagolwg. Rydym wedi cyflwyno papur i Lywodraeth Cymru yn argymhell y dylem ddal ein gafael arno, fel y gallwn ei osod yn erbyn yr incwm pren. Ym marn Llywodraeth Cymru, dylai'r incwm hwn gael ei dynnu o'r Cymorth Grant ychwanegol a addawyd ar ddechrau'r flwyddyn (£7.1m). Golyga hyn y bydd angen inni ddod o hyd i ffyrdd o leihau ein cyllideb yn ystod y flwyddyn, ond rydym yn obeithiol y gellir gosod hyn yn erbyn cynnydd pellach mewn incwm pren ac incwm masnachol o fath arall dros y chwe mis nesaf.
11. Rydym ar ddeall y byddwn yn cael cadarnhad ffurfiol y gallwn dynnu i lawr y cyllid ychwanegol o £7.1m gan Lywodraeth Cymru a addawyd yn y llythyr cysur (ond a leihawyd i £5.3m yn sgil gwerthu Forest Holidays).

Y Sefyllfa o ran Cyflogau

12. Rydym wedi cynnal adolygiad o'n cyllidebau staff ar gyfer gweddill y flwyddyn. Rydym yn dal i gwblhau'r cyfrifiadau ac rydym yn awyddus i'r Cyfarwyddwyr unigol eu cymeradwyo cyn iddynt gael eu rhannu'n ehangach. Bydd y gwaith hwn yn dod i ben cyn diwedd mis Hydref a bydd MyNRW yn cael ei ddiweddarau'n unol â hynny. Mae ein cyfrifiadau cychwynnol yn awgrymu y gallwn fforddio'r dyfarniad cyflog o 4%, ond dylid defnyddio unrhyw arbedion pellach o ran cyflogau (os bydd arbedion o'r fath i'w cael) i leihau'r gor-raglennu. Rydym yn disgwyl clywed beth yw canlyniad cynnig cyflog Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn effeithio ar gyllideb y flwyddyn nesaf. Rydym yn dal i fod angen cadarnhad ynglŷn â faint o arbedion Yswiriant Gwladol y gallwn eu cadw. Buaswn yn disgwyl inni gael cadw'r elfen sy'n gysylltiedig â thaliadau fan leiaf.
13. Ni fydd Llywodraeth Cymru yn rhoi ychwaneg o gyllid inni.

Y Sefyllfa Gyffredinol

14. Dechreuwyd y flwyddyn ariannol gyda gor-raglennu a oedd yn werth £4m. Hyd yn hyn, nid oes unrhyw arian wedi'i ddychwelyd (otherwydd llithriant) na'i ailfuddsoddi. Fel arfer, byddem yn cynllunio ar gyfer gor-raglennu ar ffigur o £3m, ond cynyddwyd y ffigur hwn otherwydd y gyllideb fwy eleni. Fodd bynnag, otherwydd y gostyngiad mewn incwm pren a bwriad Llywodraeth Cymru i dynnu £1.8m o'r incwm o £7m, rwy'n bryderus ynglŷn â'n gallu i fodloni'r lefel hon o or-raglennu ar ben yr £1.8m a gaiff ei dynnu yn awr o'r Cymorth Grant ychwanegol.
15. Bydd y tîm Cyllid yn mynd ati'n ddi-oed i asesu faint o botensial sydd yna i danwario neu i gynyddu ein hincwm yn y gyllideb sy'n weddill. Yn y cyfamser, rwy'n argymhell y dylai unrhyw danwariant arall eleni gael ei ddychwelyd i'r tîm Cyllid fel y gellir ei osod yn erbyn y gor-raglennu. Ni ddylid dyrannu cyllidebau newydd ar gyfer prosiectau / gwaith newydd.

16. Rydym yn ymwybodol hefyd o bwysau arall o du chwyddiant y bydd angen inni ei ystyried.
17. Yna, byddwn yn ystyried pethau o'r newydd er mwyn gweld a fydd angen rhoi'r gorau i unrhyw beth er mwyn inni allu gwario o fewn y gyllideb.

Goblygiadau ehangach

18. Dyma'r goblygiadau ehangach:
 - (a) **Cyllid:** Mae'r adroddiad hwn yn sôn am berfformiad ariannol CNC.
 - (b) **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:** Mae pob rhan o'r gyllideb yn cyfrannu at un neu lawer o'n Hamcanion Llesiant.

Y Camau Nesaf

19. Rydym yn annog rheolwyr cyllidebau a phrosiectau i roi gwybod i'r tîm Cyllid am unrhyw newidiadau yn y rhagolwg. Yna, bydd modd i'r Arweinwyr / Cyfarwyddiaethau ystyried y newidiadau hynny.
20. Bydd y tîm Cyllid yn adolygu risgiau o fewn y gyllideb bob mis, gan roi proses 'ailragweld' benodol ar waith lle gwyddom fod angen cyflwyno newidiadau. Byddwn hefyd yn mynd i'r afael ag ymarferion ailragweld mwy sylweddol bob yn hyn a hyn ar gyfer eitemau fel cyllidebau staff. Caiff rhaglenni fel Dylunio ac Arloesi, Llifogydd a Rhaglenni Cyfalaf nad ydynt yn Ymwneud â Llifogydd eu hailragweld bob mis. Yn dilyn yr adolygiad o gyllidebau cyflogau ym mis Medi, byddwn yn awr yn canolbwytio ar risgiau eraill er mwyn deall i ba raddau y gallwn leihau lefel y gor-raglennu.
21. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno gerbron cyfarfod y Tîm Gweithredol, y Tîm Arwain a changen Nawdd Llywodraeth Cymru, a hefyd gerbron y Bwrdd.
22. Pe bai penderfyniadau'n cael eu gwneud ynglŷn ag ailflaenorïaethu, byddant yn cael eu cyfathrebu trwy'r tîm Cyllid mewn da bryd a byddant yn cyd-fynd â Rheoli ein Harian.
23. Caiff yr adroddiad hwn ei lunio bob deufis ar gyfer y Bwrdd. Caiff yr atodiad sy'n sôn am berfformiad ariannol ei lunio bob mis ar gyfer y Tîm Gweithredol.

Argymhelliaid

24. Dylai'r Bwrdd graffu ar y perfformiad ariannol hyd at ddiwedd mis Medi 2022.
25. Dylai'r Bwrdd gymeradwyo'r newid i'r rhagolwg sylfaenol, sef ei gynyddu i £235.8m.

Mynegai o'r Atodiadau


Atodiad A – Adroddiad ar Berfformiad Ariannol

NRW Board & Executive Team Budget Performance Report as at September 2022


SECTION 1: NRW Financial Performance Summary

Section 1. Summary	Actual YTD £m	Approved Forecast YTD £m	Variance YTD £m	Var YTD %	Approved Forecast FY £m	Remaining Budget %	Original Budget FY £m	Commentary
Income	100.8	100.5	0.3	0.3%	235.8	57%	241.9	<p>Income to date is in line with the budget.</p> <p>During September anticipated income for the year has risen by £0.2m to £235.8m. The key changes relate to an increase in WG grants (£0.9m) and charges (£0.1m) and a reduction in European funding (£0.8m). We are continuing to re-assess European income in October and expect that to increase again. We have not yet accounted for the forest holiday receipt in our forecast and WG's current position will be to net-off the £1.8m against our additional £7.1m Grant in Aid, promised in the Letter of Comfort. We have retained the timber income forecast at £36m, but that is being reviewed and may increase marginally.</p>
Expenditure	95.7	96.1	0.4	0.4%	235.8	59%	241.9	<p>Expenditure to date is progressing to profile although there are variances between the different types of expenditure. There are risks to our overall outcome which I have outlined below in the key messages section and the cover paper. Expenditure was £95.7m against a forecast of £96.1m – 0.4% variance and 40.6% of the budget spent. Although expenditure is on profile, I am concerned that we will be over-spent at the end of this financial year for reasons outlined in this report. The same time last year, we had expenditure of £85.4m (37.6% of annual budget).</p>

Income



Expenditure



SECTION 1.2: Key messages on budget position

We currently have 3 significant pressures on our budget:

- Reduction in timber income and WG's view that the forest holiday receipt should be netted off the additional Grant in Aid promised in the "Letter of Comfort". Risk = £1.8m. In mitigation, we are expecting some commercial income streams to increase in forecast but not to £1.8m.
- Affording the pay award increase from 2% to 4%. We are in the process of concluding the review of the salary budget. Our initial expectations are we expect to be able to afford the 4% pay award but little else.
- We still have a £4m over-programming embedded into the budget. That has not reduced and there are no may risks of underspend being signalled. I would much prefer for that to be nearer £2-£3m at this stage of the year. Finance will focus on non staff related budgets in October and November and recommend that any further budget reductions are returned to Finance.

SECTION 2: NRW Financial Performance - by Account Type

Section 2.1: INCOME by Account Type	Actual YTD £m	Approved Forecast YTD £m	Variance YTD £m	Variance YTD %	Approved Forecast FY £m	Remaining Budget FY %	Original Budget FY £m	Commentary
Charges	28.4	27.7	0.6	2%	39.2	28%	39.0	Charges ahead of profile by £0.6m due to EPR Water Quality and Installation subsistence income. This is likely to lead to an increase in the full year forecast with this income available to be used for the benefit of those income streams.
Commercial	26.3	26.4	0.0	0%	58.7	55%	59.1	
European & external	1.8	1.8	0.0	0%	8.4	78%	9.6	
Grant in aid	44.3	44.5	-0.2	0%	127.8	65%	133.9	
Brought forward	0.0	0.0	0.0	0%	1.7	100%	0.3	
TOTAL: NRW	100.8	100.5	0.4	0%	235.8	57%	241.9	

Section 2.2:	Actual	Approved Forecast	Variance	Variance	Approved Forecast	Remaining Budget	Original Budget	Commentary
	YTD £m	YTD £m	YTD £m	YTD %	FY £m	FY %	FY £m	
Staff	50.5	51.8	1.3	2%	108.8	54%	104.6	Vacancy levels have increased in September to 11% (increase of 28.4 fte vacancies) compared to budgeted level of 6% resulting in an underspend £2.9m, of which £1.6m relates to core posts where Directorates have reviewed the latest forecast to year end and incorporating any re-purposing to meet their delivery targets. The other significant variance is in respect to staff costs for projects (£1.4m behind profile) - the impact will need to be considered by programme and project managers. The results of the salary forecast review are being concluded and will be approved by individual Directors. We expect that to fund the increase in pay award to 4% and forecast changes will be processed in October.
Non Staff	25.3	24.9	-0.5	-2%	63.0	60%	64.2	Non Staff costs are slightly ahead of the year to date profile, predominantly linked to Land Stewardship & Projects Delivery costs within Operations (£0.4m & £0.2m over spent respectively), which is offset slightly by an under spend of £0.1m within EPP, split across a number of areas.
Revenue Projects	6.0	5.6	-0.3	-6%	19.9	70%	21.9	The Land Stewardship allocation within Operations is being reviewed. The over-programming has been set at a relatively high level given the reduction in timber income, and is unlikely to be met without reductions in the programme due to WG current position on us retaining the Forest Holiday sale. In mitigation, we are hopeful that timber and energy income might exceed the current forecast (£36m).
Capital Projects	13.9	13.7	-0.1	-1%	44.0	69%	51.3	The impact of inflation on building costs are being assessed and is likely to use up all of the inflation contingency.
TOTAL: NRW	95.7	96.1	0.4	0%	235.8	59%	241.9	Whilst the current spend is in line with the budget, there still exists considerable over programming: Flood (£3.9m), Nature & Climate Emergencies (NaCE) (£3.4m) & ICT (£0.7m). The Flood capital programme is progressing well and the team feel that this is the minimum we can spend. We will consider approaching WG for an increase once we are more confident of this position. The NaCE over-programming balance is reducing each month and we are confident that the outturn will be in line with funding. The ICT position probably poses the greatest risk of over spend - it is over subscribed.

Expenditure Performance further analysed:

Section 2.2.1 :	Actual	Approved Forecast	Variance	Variance	Approved Forecast	Remaining Budget	Original Budget	Commentary
	YTD £m	YTD £m	YTD £m	YTD %	FY £m	FY %	FY £m	
EXPENDITURE - Staff by Detail Account								
Trajectory	53.6	56.5	2.9	5%	118.6	55%	112.0	Vacancy turnover is running over target by 5% and Directorates have been re-prioritising some of the underspends towards achieving their delivery targets. We have budgeted for a 2% pay award this year and the 4% offer will need to be afforded. The results of the salary forecast review are being concluded and will be approved by individual Directors. We expect that to fund the increase in pay award to 4% and forecast changes will be processed in October.
Workforce Recharges	-5.8	-7.4	-1.6	-21%	-15.8	63%	-13.1	This is mainly due to vacancies on posts funded directly from projects (£1.4m), the impact of which will need to be assessed within the overall project forecast. The small remaining balance is mainly due to rechargeable works being behind budgeted profile.
Other Staff	2.8	2.8	0.0	0%	6.1	55%	5.6	
TOTAL: NRW Staff	50.5	51.8	1.3	2%	108.8	54%	104.6	

Section 2.2.3 :	Actual	Approved Forecast	Variance	Variance	Approved Forecast	Remaining Budget	Original Budget	Commentary
	YTD £m	YTD £m	YTD £m	YTD %	FY £m	FY %	FY £m	
EXPENDITURE - Revenue Projects by Programme								
Revenue Project Programme - Core Activities	0.2	0.2	0.0	10%	0.9	78%	0.9	
Revenue Project Programme - Options Fees	0.8	1.2	0.3	29%	2.4	65%	2.4	Delay in the acquisition of the land for compensatory planting.
Revenue Project Programme - External Funded	2.0	1.7	-0.3	-16%	6.0	67%	6.0	The current over spend is predominantly linked to a number of waste projects (£0.1m) & Glastir (£0.2m) within EPP. The Glastir element is just a timing issue with the budgets only reflecting 3 months of European Funding, rather than 6, with the waste projects awaiting funding from charge balances. These will be corrected for future reporting.
Revenue Project Programme - Flood Risk	0.0	0.0	0.0	0%	0.1	69%	0.1	
Revenue Project Programme - Grants & Partnership	0.1	0.0	-0.1	-100%	2.7	98%	2.7	This is a risk area with limited spend to date (2%) against the £2.7m full year forecast. Although the profile for grant spend is predominantly in Quarter 4.
Revenue Project Programme - WG funded	0.0	0.0	0.0	0%	0.2	100%	0.0	
Revenue Project Programme - Nature & Climate Emergencies (NaCE)	0.2	0.2	0.0	19%	1.1	86%	0.3	Whilst the year to date spend is in line with the budget, there is still 86% of the full year budget remaining but we expect to use the full budget.
Revenue Project Programme - WG Grants	0.5	0.5	0.0	-3%	1.6	70%	1.7	
Revenue Project Programme - Reservoir Compliance	0.0	0.1	0.0	39%	0.2	83%	0.3	
Revenue Project Programme - Land Stewardship	0.3	0.4	0.1	27%	0.9	71%	1.1	Predominantly linked to Bala Phyto Coupes project in NW Wales.
Revenue Project Programme - ICT D&I	0.4	0.0	-0.4	0%	0.0	0%	0.0	Currently there is no revenue funding for D&I projects. We are looking at the possibility of re-categorizing the projects and potentially moving them to capital, although given the pressures on the capital D&I budget, this will further increase the pressures on that income stream.
Revenue Project Programme - Unfunded Pressure Bid (Internal funded)	0.9	0.9	0.0	2%	1.7	45%	0.9	
Revenue Project Programme - Other	0.5	0.4	-0.1	-15%	1.3	62%	0.9	
Revenue Project Programme - Water Resource Projects	0.1	0.1	0.0	35%	0.4	84%	0.4	Genuine delay in the spend due to availability of contractors.
Revenue Project Programme - Unallocated Balances	0.0	0.0	0.0	0%	0.4	100%	4.2	
TOTAL: NRW	6.0	5.6	-0.3	-6%	19.9	70%	21.7	

Section 2.2.4 :	Actual	Approved Forecast	Variance	Variance	Approved Forecast	Remaining Budget	Original Budget	Commentary
	YTD £m	YTD £m	YTD £m	YTD %	FY £m	FY %	FY £m	
EXPENDITURE - Capital Projects by Programme								
Capital Project Programme - Options Fees	0.7	0.7	0.0	0%	3.0	76%	3.0	
Capital Project Programme - WG Funded	0.1	0.1	0.0	-2%	0.1	49%	0.0	
Capital Project Programme - Land Stewardship	0.9	1.1	0.2	22%	2.8	68%	3.1	Reservoir compliance programme slightly behind planned profile, although a number of outstanding consultancy costs will reduce the current variance. This area underspent last year. Any reductions will help fund the over-programming in Land Stewardship due to the reduction in timber income.
Capital Project Programme - External Funded	0.3	0.3	0.0	8%	1.5	82%	2.2	
Capital Project Programme - Flood Risk	5.5	4.9	-0.6	-13%	14.5	62%	18.7	The over programming has increased slightly from last month, now standing at £3.9m. This is mainly due to an increase in the Stephenson Street project (£800k). The flood capital programme is progressing well and the team feel that this is the minimum we can spend. We will consider approaching WG for an increase once we are more confident of this position.
Capital Project Programme - WG Grants	0.1	0.1	0.1	0%	0.9	92%	0.9	
Capital Project Programme - Nature & Climate Emergencies (NaCE)	3.1	3.1	0.1	2%	12.6	76%	14.1	The Programme funding has reduced by £0.4m, reducing the forecast to £15.5m (inclusive of overheads). The level of over programming has reduced by £1.2m from last month, and is likely to reduce as we enter last 6 months of the year and spend should be in line with what's available within the programme.
Capital Project Programme - Other	0.4	0.5	0.0	8%	0.8	48%	1.1	
Capital Project Programme - ICT D&I	2.4	2.5	0.1	4%	6.8	65%	6.3	Whilst the current position is in line with the budget, there is an overprogramming balance of £0.7m.
Capital Project Programme - Water Resources Project	0.3	0.4	0.2	41%	1.0	75%	1.6	Genuine delay in the spend due to availability of contractors. Likely to under spend based on the current programme, which puts further pressure on next years project delivery.
Capital Project Programme - Unallocated Balances	0.0	0.0	0.0	0%	0.0	0%	0.1	
TOTAL: NRW	13.6	13.7	0.1	1%	44.0	69%	51.3	

SECTION 3:
NRW Financial Performance - by Directorate

Section 3.1:	Actual	Approved Forecast	Variance	Variance	Approved Forecast	Remaining Budget	Original Budget	Commentary
	YTD £m	YTD £m	YTD £m	YTD %	FY £m	FY %	FY £m	
INCOME by Directorate								
Communications, Customer and Commercial	7.0	7.0	-0.1	-1%	18.3	62%	19.8	
Corporate Strategy & Development	0.2	0.2	0.0	7%	0.2	7%	0.0	
Evidence Policy & Permitting	2.3	2.2	0.1	6%	16.9	86%	16.4	Current income received is slightly ahead of the planned profile. Limited risk to the year end position.
Finance & Corporate Services	70.4	70.2	0.3	0%	149.5	53%	153.1	Charges ahead of profile by £0.6m due to EPR Water Quality and Installation subsistence income. This is likely to lead to an increase in the full year forecast with this income available to be used for the benefit of those income streams.
Operations	21.0	21.0	0.0	0%	50.9	59%	52.5	
TOTAL: NRW	100.8	100.5	0.3	0%	235.8	57%	241.9	

Section 3.2:	Actual	Approved Forecast	Variance	Variance	Approved Forecast	Remaining Budget	Original Budget	Commentary
	YTD £m	YTD £m	YTD £m	YTD %	FY £m	FY %	FY £m	
EXPENDITURE by Directorate								
Communications, Customer and Commercial	4.0	4.4	0.4	8%	15.5	74%	14.5	Predominantly linked to vacancies within core posts (£0.2m) and revenue project costs (£0.1m).
Corporate Strategy & Development	4.9	5.1	0.3	5%	11.0	56%	9.1	The current underspend is mainly due to staff costs (£0.3m under spent).
Evidence Policy & Permitting	28.2	26.1	-2.2	-8%	65.6	57%	60.0	The current overspend is almost solely due to capital projects (£2.4m over spent), mainly Flood (£2m) & NaCE (£0.3m) programmes. With the capital over programming budgets being held in EPP and delivery of the various projects split across NRW, one would expect to see an over spend at this time of year, which should reduce as we move towards year end. Revenue projects are inline with the year to date budget, non staff under spent by £0.1m and core staff costs under by £0.3m.
Finance & Corporate Services	12.4	12.6	0.3	2%	28.6	57%	33.3	Whilst overall the current Directorate position looks fine, there are some significant over programming figures with the revenue & capital ICT programmes (£1.4m overall) and inflationary pressures being assessed.
Operations	46.2	47.9	1.7	4%	115.1	60%	125.1	Overall, the Directorate is £1.7m under spent, predominantly linked to capital projects (£1.9m under) - mainly Flood (£1.1m under), Reservoir Compliance (£0.2m) & the NaCE (£0.4m) programmes. The Flood under spend offsets over programming within EPP. Revenue projects are under spent by £0.1m linked to Land Stewardship funded projects in South Central Ops. Non staff costs are over spent by £0.6m, linked to Land Management activities across the majority of Operations (£0.4m) and Projects Delivery (£0.2m). The Projects Delivery element is only temporary, pending redistribution to the relevant projects. Core staff costs under spent by £0.3m.
TOTAL: NRW	95.7	96.1	0.4	0%	235.8	59%	241.9	

Expenditure Performance further analysed:

Section 3.2.1 :	Actual	Approved Forecast	Variance	Variance	Approved Forecast	Remaining Budget	Original Budget	
	YTD £m	YTD £m	YTD £m	YTD %	FY £m	FY %	FY £m	
EXPENDITURE by Leadership Team								
Head of Finance	-1.5	-1.5	0.0	1%	-3.8	60%	1.5	
Head of Legal Services	0.9	1.0	0.0	5%	1.9	52%	1.9	
Head of Sustainable Commercial Development	1.6	1.8	0.2	10%	9.9	84%	9.4	
Head of ICT	7.4	7.3	-0.1	-1%	18.2	59%	17.6	
Head of People Management	1.0	1.1	0.1	5%	2.5	60%	2.0	
Head of Business Support Services and Adfvwio	6.2	6.4	0.3	4%	13.0	52%	13.4	
Head of Communications and Digital Transformation	1.1	1.1	0.1	5%	2.5	57%	2.2	
Head of Organisational Development	1.2	1.3	0.1	9%	2.8	57%	2.1	
Head of Governance and Board Secretary	0.9	1.0	0.1	9%	1.8	49%	1.9	
Head of Natural Resource Management Policy	13.8	13.4	-0.4	-3%	35.9	61%	38.6	
Head of Regulation & Permitting	4.6	4.4	-0.2	-4%	10.4	56%	8.7	
Head of Knowledge & Evidence	2.8	2.8	0.1	2%	6.1	54%	5.8	
Head of Flood & Incident Response Management	3.8	1.5	-2.3	-147%	4.9	23%	-3.1	
Head of Land Stewardship	2.1	2.5	0.4	16%	5.6	63%	7.4	
Head of Operations - North East Wales	5.1	5.7	0.6	10%	13.3	61%	11.5	
Head of Operations - Mid Wales	6.6	6.8	0.1	2%	15.6	57%	16.4	
Head of Operations - North West Wales	5.4	5.2	-0.2	-3%	11.7	54%	10.7	
Head of Operations - South Central Wales	12.2	13.4	1.2	9%	32.7	63%	18.3	
Head of Operations - South East Wales	5.0	5.0	0.0	1%	10.5	52%	9.5	
Head of Operations - South West Wales	8.7	8.2	-0.5	-6%	22.0	61%	24.7	
Head of Operations - Development, Planning & Marine Services	2.9	2.8	0.0	-1%	7.6	62%	6.4	
Director Of Finance & Corporate Services	0.1	0.1	0.0	28%	0.2	64%	0.2	
Director Of Operations	0.2	0.7	0.5	66%	1.7	86%	28.6	
Director Of Evidence Policy & Permitting	1.1	1.4	0.2	15%	2.7	57%	2.5	
Director Of Corporate Strategy & Development	0.1	0.1	0.0	9%	0.2	45%	0.2	
Director Customer Communications & Commercial	0.7	0.8	0.1	12%	1.7	58%	1.6	
Head of Customer	0.7	0.7	0.0	6%	1.4	53%	1.3	
Head of Internal Audit and EMS	0.2	0.2	0.1	26%	0.6	68%	0.5	
Head of Corporate Strategy & Programme Management Office	0.7	0.6	-0.1	-10%	1.8	61%	1.0	
Head of Business Transformation	0.1	0.1	0.0	0%	0.4	85%	0.0	
TOTAL: NRW	95.7	96.1	0.4	0%	235.8	59%	241.9	

Section 3.2.2 :	Key Performance Indicators								
	Actual	Approved Forecast	Variance	Variance	Approved Forecast	Remaining Budget	Original Budget	Commentary	
EXPENDITURE - Staff Trajectory by Directorate	YTD £m	YTD £m	YTD £m	YTD %	FY £m	FY %	FY £m		
Head of Sustainable Commercial Development	2.8	3.1	0.3	9%	6.3	56%	6.2	Staff costs are below budget due to level of vacancies. Directorate Leadership have reviewed the latest forecast to the year end and will be reviewed by Directors before amending. Staff budgets will be amended accordingly during October.	
Head of Legal Services	3.4	3.4	0.0	1%	7.2	53%	6.5		
Head of Natural Resource Management Policy	15.5	16.4	0.9	5%	33.7	54%	31.3	Staff costs are below budget due to level of vacancies. Directorate Leadership have reviewed the latest forecast to the year end and will be reviewed by Directors before amending. Staff budgets will be amended accordingly during October.	
Head of Finance	1.3	1.5	0.3	18%	6.0	79%	5.9	Staff costs are below budget due to level of vacancies. Directorate Leadership have reviewed the latest forecast to the year end and will be reviewed by Directors before amending. Staff budgets will be amended accordingly during October. The percentage variance is skewed because F&CS hold the LGPS pension credit budget.	
Head of Operations - North East Wales	30.6	32.0	1.4	4%	65.3	53%	62.2	Staff costs are below budget due to level of vacancies. Directorate Leadership have reviewed the latest forecast to the year end and will be reviewed by Directors before amending. Staff budgets will be amended accordingly during October.	
TOTAL: NRW	53.6	56.5	2.9	5%	118.6	55%	112.0		

SECTION 4: NRW Changes to Full Year Forecast

Section 4.1: INCOME	Opening Budget	August Approved Forecast	September Approved Forecast	Change In Forecast
by Funding Type	£m			£m
Charges	39.0	39.0	39.2	0.1
Commercial	59.1	58.7	58.7	0.0
European & external	9.6	9.2	8.4	-0.8
Grant in Aid	133.9	127.0	127.8	0.9
Brought forward	0.3	1.7	1.7	0.0
TOTAL: NRW	241.9	235.6	235.8	0.2

Section 4.2: EXPENDITURE	Opening Budget	August Approved Forecast	September Approved Forecast	Change In Forecast
by Directorate	£m	£m	£m	£m
Communications, Customer and Commercial	14.5	15.9	15.5	-0.4
Corporate Strategy & Development	9.1	10.9	11.0	0.1
Evidence Policy & Permitting	60.0	64.7	65.6	0.8
Finance & Corporate Services	33.3	29.6	28.6	-1.0
Operations	125.1	114.5	115.1	0.6
TOTAL: NRW	241.9	235.6	235.8	0.2

Section 4.3:

- 1) Income change (Charges) - Increase in 2 charge regimes income forecasts (£0.1m).
 - 2) Income change (Grant in Aid) - Additional WG grant funding for Inland Bathing Water (£0.1m), 4Rivers for LIFE (£0.1m), Gamebirds (£0.2m), WG Waste reform and deliver (£1m) offset by NaCE programme reduction (£0.4m).
 - 3) Income change - (European & external) - Review of external funding projects (£0.6m reduction).
 - 4) Expenditure change - CCC - mainly due to the transfer of wind energy funding to Land Stewardship (EPP) (£0.5m).
 - 5) Expenditure change - FCS - mainly movement in contingencies budget.
 - 6) Expenditure changes - Ops - Additional NaCE and FCR/WWR capital programme allocations (£0.8m and £0.3m respectively). WG funding for 4 Rivers for LIFE (£0.1m) offset by a reduction in external funding projects (£0.7m).
 - 7) Expenditure change - OPS - Mainly additional WG Grant funding for Gamebirds, Waste Reform & NRW Delivery, and Glastir project funding (£1.8m) offset by a reduction in NaCE programme - mainly allocated to Operations (£1.1m).

Blank Page

Papur Bwrdd CNC

Dyddiad y cyfarfod:	16 Tachwedd 2022
Teitl y Papur:	Dangosfwrdd Perfformiad y Cynllun Busnes 2022-23 ac Adroddiad Perfformiad Mewnol 2022/23
Cyfeirnod y Papur:	22-11-B11
Noddir y Papur gan:	Clare Pillman, Prif Weithredwr
Paratowyd y Papur gan:	Sioni Davies Cyngorydd, Cynllunio a Pherfformiad Corfforaethol; Caroline Hawkins (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad ac Asesu Strategol)
Cyflwynir y Papur gan:	Y Tîm Gweithredol
Diben y papur	Craffu
Crynodeb	<p>Gofynnir i'r Bwrdd graffu ar berfformiad Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer ail chwarter 2022/23 ac ystyried yn benodol:</p> <ul style="list-style-type: none">Y cynnydd yn erbyn pob mesur a adroddwyd ar Ddangosfwrdd Perfformiad y Cynllun BusnesY cynnydd yn erbyn pob mesur a adroddwyd ar yr Adroddiad Perfformiad Mewnol

Cefndir

- Dangosfwrdd Perfformiad y Cynllun Busnes yw un o brif ddulliau'r Bwrdd o graffu ar ein gwaith cyflawni. Fe'i datblygwyd ochr yn ochr â Chynllun Busnes 2022/23 gan weithio gyda'r Bwrdd, y Tîm Gweithredol a'r Tîm Arwain. Mae'r Cynllun Busnes blynnyddol yn ymwneud â'n Cynllun Corfforaethol hyd at fis Mawrth 2023; bydd ein Cynllun Corfforaethol newydd yn cael ei gyhoeddi yn ystod Gwanwyn 2023. Mae'r mesurau perfformiad sy'n cael eu dangos yn yr Adroddiad Chwarter 2 hwn a dangosfyrrdau ategol yn adlewyrchu'r gwaith rydym yn ei wneud gyda'r adnoddau sydd gennym ar gael yn 2022/23 ac mae ar wahân i ffocws ehangach yr Ymarfer Sylfaenol.
- Gellir gweld Adroddiad Perfformiad Dangosfwrdd y Cynllun Busnes yn Atodiad 1 ac mae'n cynnwys:

- **Dangosfwrdd** sy'n rhoi trosolwg o berfformiad yn erbyn mesurau 2022/23 wedi'i osod yn ôl y blaenoriaethau strategol a adlewyrchir yn ein Cynllun Busnes.
- **Mynegai pynciau** wedi'i drefnu yn ôl blaenoriaeth strategol i helpu i lywio drwy'r adroddiad.
- **Crynodeb ar gyfer pob Pwnc** sy'n adlewyrchu cynnydd ar draws y maes gwaith.
- **Manylion ar gyfer pob mesur penodol** gyda sefyllfa diwedd blwyddyn.

3. Mae'r Adroddiad Perfformiad Mewnol i'w weld yn Atodiad 2 ac mae'n cynnwys 11 o fesurau gyda ffocws mewnol.

Asesiad

- Mae'r farchnad gyflogaeth bresennol, gyda lefel isel o ddiweithdra, yn golygu bod pob sector o'r economi (preifat, cyhoeddus a thrydydd) yn sôn am anawsterau reciwtio i rolau sy'n draddodiadol hawdd eu llenwi. Mae'r cyd-destun pwysig hwn yn esbonio rhai o'r anawsterau rydym yn eu profi ar draws y sefydliad wrth reciwtio staff, ac effaith hynny ar gyflawni rhai o'n mesurau. Gan ystyried pwysigrwydd y mater hwn, mae gwaith ar y gweill i ailwampio ein proses reciwtio yn radical drwy dechnoleg, ail-beiriannu'r broses, sefydlu cyfleoedd lleoli, lleihau'r ddibyniaeth ar benodiadau tymor penodol yn ogystal â newid y ffordd o werthu manteision gweithio i CNC. Bydd y ffocws newydd hwn yn cael ei gefnogi drwy arbenigwr Caffael Talent newydd, a fydd yn cael y dasg o gymryd golwg fwy strategol ar ein gofynion a'n harferion reciwtio sefydliadol. Rydym yn diweddaru'r Pwyllgor Pobl a Thaliadau (PaRC) yn rheolaidd ynglŷn â'r gwaith o ddatblygu a gweithredu ein Rhaglen Trawsnewid Pobl, gan gynnwys y llifoedd gwaith sy'n ymwneud â reciwtio.
- Gofynnir i'r Bwrdd graffu ar Adroddiad Dangosfwrdd Perfformiad y Cynllun Busnes, gan nodi'r prif faterion isod. Mae rhagor o fanylion ar gael yn yr adroddiad ei hun (Atodiad 1):

	Chwarter 1 (1 Ebrill – 30 Mehefin 2022)	Chwarter 2 (1 Gorffennaf – 30 Medi 2022)	Chwarter 3 (1 Hydref – 31 Rhagfyr 2022)	Disgwyliedig ar Ddiwedd y Flwyddyn (at 31 Mawrth 2023)
Coch	1	2		1
Amherthnasol	1	0		1
Melyn	6	12		6
Gwyrdd	23	17		23
Cyfanswm	31	31		31

6. **Mae dau fesur yn Goch.** Y rhain yw:

- **Cymryd camau gweithredu wedi'u targedu ar gyfer rhywogaethau y mae eu niferoedd yn dirywio neu'r rhai sydd ar fin diflannu**

Ein carreg filltir ar gyfer y mesur hwn yw cwblhau'r adolygiad o Bolisi a Phrosesau Trawsleoliadau Cadwraeth CNC (symud / ailgyflwyno poblogaethau o rywogaethau penodol i safleoedd penodol). Nid ydym wedi cwblhau'r gweithgaredd hwn.

Roeddem yn disgwl bod yn Felyn yn Chwarter 2, ac er bod y gwaith yma wedi ei

ddechrau, mae wedi'i ohirio oherwydd newidiadau i staff. Rydym bellach wedi recriwtio'n llwyddiannus o ran Apwyntiad Tymor Penodol Polisi Rhywogaethau newydd er mwyn i'r gwaith hwn allu mynd rhagddo. Ein carreg filltir ar gyfer y cyfnod adrodd nesaf yw cytuno ar y rhaglen waith i gyflawni camau gweithredu CNC o fewn Cynllun Gweithredu Cymru er mwyn adfer y Gylfinir. Rydym yn disgwl cwblhau'r gwaith a bod yn Wyrdd erbyn diwedd Chwarter 4.

- Ail-wampio ein rhwydwaith monitro ansawdd dŵr croyw yn llwyr**

Ein carreg filltir ar gyfer y mesur hwn yw datblygu a chyhoeddi'r strategaeth monitro ansawdd dŵr croyw. Nid ydym wedi cwblhau'r gweithgaredd hwn. Mae'r gwaith o recriwtio swyddog arbenigol ar y gweill i gwblhau'r gwaith o ailgynllunio'r rhwydwaith monitro ac arwain y gwaith gweithredu dilynol yn 2023-4 a 2024-5. Ein carreg filltir ar gyfer y cyfnod adrodd nesaf yw datblygu'r cynllun gweithredu. Er ein bod ar y trywydd iawn i gyflawni rhaglen fonitro 2022-3, bydd y trafferthion a gafwyd wrth ddod o hyd i ymgeisydd addas yn oedi cwblhau'r gwaith o ailgynllunio'r rhwydwaith monitro dŵr croyw. Ar hyn o bryd, rydym yn disgwl bod yn Goch ar ddiwedd y flwyddyn.

7. Mae deuddeg mesur yn Felyn yn Chwarter 2. Y rhain yw:

- Cefnogi cyflwyno argymhellion a chamau gweithredu gwaith ymchwil manwl Ynni Adnewyddadwy**

Rydym yn parhau i roi llawer o'r camau gweithredu ar waith, gan gynnwys cwblhau'r adolygiad o anghenion adnoddau ac opsiynau ar gyfer cyngor a chydsynio, cytuno ar Flaengynllun gyda'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) i fynd i'r afael â throsglwyddo pwerau cynghori ar y môr i CNC a mewnbwn i'r adolygiad o'r dechrau i'r diwedd o drwyddedu morol. Nid yw penderfyniad y Cytundeb Lefel Gwasanaeth (SLA) wedi'i gwblhau ac mae dyddiad cyflawni'r archwiliad dwfn bellach wedi pasio, ac felly mae cyflawni'n Felyn o ganlyniad. Rydym yn disgwl bod yn Felyn ar ddiwedd y flwyddyn gan fod dychwelyd i Wyrdd yn gofyn i ni barhau i weithio ar anghenion adnoddau i gefnogi'r gwaith.

- Datblygu fflyd allyriadau isel a darparu ystâd adeiledig allyriadau isel sydd wedi'i haddasu ar gyfer yr hinsawdd**

Ein carreg filltir ar gyfer y mesur hwn yn cwblhau ein Strategaeth Llety - y Gofod lawn yn y Lle lawn- ynghyd â'i gynllun cyflenwi hirdymor cysylltiedig gyda ffocws ar fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Rydym yn Felyn oherwydd bod angen diwygio'r strategaeth ddrafft, ac mae'r cynllun cyflenwi yn dal i gael ei ddatblygu, ond bydd yn cael ei gwblhau erbyn diwedd mis Hydref. Rydym yn disgwl bod yn Felyn ar ddiwedd y flwyddyn.

- Cyhoeddi trwyddedau o fewn amserlenni statudol**

Ein carreg filltir ar gyfer y mesur hwn yw cyhoeddi 90% o drwyddedau o fewn y cyfnod statudol. Llwyddwyd i gyhoeddi 83.3% o drwyddedau o fewn amserlenni statudol, ond mae ein gwasanaeth trwyddedu o dan bwysau gan ein bod yn cael trafferth recriwtio staff technegol addas. Rydym wrthi'n datblygu opsiynau i wella ansawdd a niferoedd ymgeiswyr. Rydym hefyd yn adolygu a diweddar u'r canllawiau

i helpu i wella prosesau ac ansawdd y ceisiadau ond o ystyried y pwysau ar ein gwasanaeth mae'r garreg filltir yn debygol o fod yn Felyn ar ddiwedd y flwyddyn.

- Torri amodau cydymffurfio categori 1 a categori 2 yn destun asesiad pellach**

Ein carreg filltir ar gyfer y mesur hwn yw 95%. Rydym yn edrych ar yr ymdrech gydymffurfio ddilynol ar gyfer torri amodau a nodwyd gennym rhwng Ionawr 2022 a Mawrth 2022. Cofnodwyd 21 toriad amod cydymffurfio categori yn ystod y cyfnod hwnnw a thros y chwe mis dilynol cynhaliwyd gwaith cydymffurfio pellach ar gyfer 19 o'r toriadau hynny, sy'n cynnwys cynhyrchu ffeiliau achos ac atal gweithgaredd. Mae ymdrech gydymffurfio barhaus ar waith yn ymwneud â'r ddau doriad sy'n weddill, sydd wedi mynd y tu hwnt i'r targed o chwe mis ac sy'n cael eu dangos fel Melyn. Ar gyfer Chwarter 2, mae hyn yn rhoi perfformiad o 90%. Rydym yn disgwyl bod yn Felyn yn Chwarter 3 a Gwyrdd erbyn diwedd Chwarter 4.

- Gweithredu argymhellion / camau gweithredu Adolygu Llifogydd**

Yn dilyn her a chraffu sylweddol yn y Bwrdd Adfer ac Adolygu Llifogydd, nid yw'r garreg filltir hon wedi'i chwblhau'n llawn ar gyfer y chwarter hwn. Rydym wedi cau dau o'r deuddeg Adroddiad Cau Ardal Waith. Mae dau Adroddiad Cau arall yn aros am gymeradwyaeth, tra bod pum adroddiad wedi'u drafftio ac yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd i'w cymeradwyo. Ar ôl eu cymeradwyo, bydd y rhain a'r Adroddiadau Cau sy'n weddill yn cael eu cymeradwyo yn ystod mis Hydref / Tachwedd. Rydym ar y trywydd iawn i gyrraedd ein targed o Adroddiadau Cau Ardal Gwaith a Rhagleni ac rydym yn disgwyl bod yn Wyrdd erbyn diwedd y flwyddyn.

- Cynnal asedau perygl llifogydd mewn lleoliadau risg uchel ar y cyflwr targed**

Ein targed ar gyfer y mesur hwn yw 98% o'r 3,500 asedau perygl llifogydd mewn systemau risg uchel yn y cyflwr targed. Mae hwn yn darged digon heriol i'w gyrraedd a'i gynnal. Rydym ar 97.9% ar ddiwedd mis Medi 2022. Mae hyn yn golygu bod fod 76 allan o 3,524 ased mewn cyflwr gwaeth na'r hyn sydd i'w ddisgwyl. Mae angen prosiectau tymor hwy i ddatrys rhai o'r rhain, ac mae gennym raglen sy'n cael ei hariannu gan gyfalaf ar eu cyfer.

Er mwyn bodloni'r targed a sicrhau cyflwr Gwyrdd, mae angen i ni gael llai na 70 o asedau nad ydynt yn y cyflwr targed. Rydym yn monitro perfformiad yn fisol drwy ddangosfwrdd Bwrdd Busnes Rheoli Risg Llifogydd. Rhwng diwedd Chwarter 1 a diwedd Chwarter 2, rydym wedi gwneud gwaith atgyweirio ar 19 ased ond nodwyd 19 ased gwahanol sydd islaw'r cyflwr gofynnol. Mae hon yn sefyllfa ddeinamig.

Ein targed ar gyfer y cyfnod adrodd nesaf yw 98% o asedau perygl llifogydd mewn systemau risg uchel yn bodloni'r cyflwr targed. Ar hyn o bryd, rydym yn disgwyl y byddwn yn Wyrdd ar ddiwedd y flwyddyn, ond mae'n fesur anwadal gan ei fod yn dibynnu ar ganlyniadau archwiliadau, ac ni ellir rhagweld y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn gyda sicrwydd, yn enwedig wrth i ni symud i gyfnod y gaeaf.

- Cynhyrchu Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd**

Ein carreg filltir ar gyfer y mesur hwn yw cwblhau'r ymgynghoriad Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd. Mae ymgynghoriad mewnol wedi digwydd, ond mae'r ymgynghoriad allanol wedi'i ohirio oherwydd cyfyngiadau ar adnoddau. Mae drafft ar gyfer ymgynghori bellach wedi'i gyfieithu ac mae disgwyl iddo gael ei bostio ar y

platform ymgynghori erbyn diwedd mis Hydref. Ein carreg filltir ar gyfer y cyfnod adrodd nesaf yw cyhoeddi Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd; mae'n annhebygol y bydd hyn yn cael ei gyflawni yn y chwarter nesaf ond dylid ei gyflawni yn Chwarter 4. Rydym yn disgwyl bod yn Wyrdd ar ddiwedd y flwyddyn, er gwaethaf yr oedi o ran cerrig milltir dros dro.

- Ceisiadau am Gamau Unioni ac Arsylwadau Cynnydd o ran Safon Sicrwydd Coetir y Deyrnas Unedig (UKWAS)**

Yn 2021, fe wnaethom gadw ein gafael ar ardystiad gyda llai o Geisiadau am Gamau Unioni nag yn 2020 ac rydym eisiau llai eto. Rydym felly wedi diffinio llwyddiant fel dangos gwelliant yn hytrach na dim ond cadw gafael ar ardystiad. Mae ein harchwilwyr wedi cau'r dda Gais am Gamau Unioni o 2020. Mae cau pob Cais am Gamau Unioni cyn yr archwiliad nesaf yn dda. Fodd bynnag, mae archwiliadau mewnol arferol wedi canfod bylchau yn y meysydd ffocws gan archwilwyr UKWAS. Mae'n bosib y bydd Ceisiadau am Gamau Unioni ychwanegol yn cael eu hagor yn archwiliad UKWAS. Ein llwybr o ran dychwelyd i Wyrdd yw cau'r Ceisiadau am Gamau Unioni mewnol cyn archwiliad UKWAS a pharhau i baratoi staff a systemau, gyda chyfarfodydd diweddaru wythnosol bellach. Mae hyn yn helpu. Serch hynny, nid ydym ar y trywydd iawn ar hyn o bryd i gyflawni ein carreg filltir diwedd blwyddyn o lai o Geisiadau am Gamau Unioni ar agor ar ôl yr archwiliad eleni nag ar ôl archwiliad y llynedd. Fodd bynnag, rydym yn hyderus o gadw gafael ar ardystiad yn gyffredinol. Rydym felly'n barnu bod y perfformiad hyd yma yn rhesymol, gan gydbwysa gwaith y maes busnes hwn ar draws ein holl risgiau strategol.

- Ymateb i faterion Iywodraethu amgylcheddol a chysylltu ag Aseswr Dros Dro**

Rydym wedi cymryd rhan mewn trafodaeth banel Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd (Cymru) (IEPAW) yn y Sioe Frenhinol ar ddeddfwriaeth gwrychoedd yng Nghymru, ac rydym wedi mynchy'u'r cyfarfod rhanddeiliaid IEPAW cyntaf i fonitro ac ymgysylltu â rhanddeiliaid trydydd parti a'u meysydd o ddiddordeb possibl. Mae'r tîm Polisi Amgylcheddol Strategol wedi'i sefydlu fel adnodd parhaol i drefnu ein gwaith ar lywodraethu amgylcheddol. Mae'r mesur hwn yn Felyn oherwydd bod aelodau tîm yn cael eu reciwtio ar hyn o bryd. Rydym yn disgwyl bod yn Wyrdd ar ddiwedd y flwyddyn.

- Cyflawni rhaglenni i adolygu gofynion ansawdd dŵr statudol**

Ein carreg filltir ar gyfer y mesur hwn yw adrodd am ganfyddiadau adolygiad Dŵr Gwastraff Trefol a chwblhau Cynlluniau Rheoli Basn Afon Dyfrdwy a Gorllewin Cymru yn barod i'w cymeradwyo gan y Gweinidog. Rydym wedi llwyddo i gael cymeradwyaeth y Gweinidog ar gyfer Cynlluniau Rheoli Basn Afon Dyfrdwy a Gorllewin Cymru. Oherwydd oedi cyn dod o hyd i adolygydd allanol addas, rydym yng nghamau olaf cwblhau'r Adolygiad Dŵr Gwastraff Trefol mewn ardaloedd sensitif. Bydd hyn yn llywio dynodiad Llywodraeth Cymru o'r dyfroedd hyn ac unrhyw ofynion dileu maethynnau cwmni dŵr, a fydd yn porthi penderfyniadau buddsoddi Adolygiad Cyfnodol 24. Rydym yn disgwyl bod yn Wyrdd ar ddiwedd y flwyddyn.

- **Cyflwyno mewnbwn CNC i wahanol Raglenni Cynllunio Cwmnïau Dŵr**
Ein carreg filltir ar gyfer y mesur hwn yw rhoi gwybod i gwmnïau dŵr am ofynion Adolygiad Cyfnodol 24 i'w cynnwys yn eu cynlluniau. Er nad yw'r gwaith yn gyflawn, rydym yn parhau i weithio'n agos gyda chwmnïau i nodi cynlluniau gwella amgylcheddol sydd eu hangen ar gyfer cyllid drwy adolygiad prisau Ofwat. Rydym yn parhau i chwarae rhan weithredol yn Fforwm Adolygiad Cyfnodol 24 Llywodraeth Cymru ac yn disgwl bod yn Wyrdd ar ddiwedd y flwyddyn.
- **Cynnydd ein gwaith i leihau llygredd o fwyngloddiau metel**
Ein carreg filltir ar gyfer y mesur hwn yw darparu diweddarriad cynnydd tuag at darged Chwarter 4 sy'n dangos nifer yr asesiadau, dyluniadau, treialon a gwaith adeiladu sydd ar y gweill neu wedi'u cwblhau. Mae rhai allbynnau wedi bod yn destun oedi oherwydd yr angen i ddeall newidiadau dylunio pellach posibl yn dilyn ymchwiliadau tir ac i ddarparu ar gyfer materion sy'n codi yn dilyn ymgynghoriad rhanddeiliaid allanol. Rydym yn disgwl y byddwn yn Felyn ar ddiwedd y flwyddyn ond byddwn yn ymdrechu i gwblhau dyluniadau amlinellol Dylife er mwyn cyflawni Gwydd. Rydym yn cynllunio'r rhaglen a'r gwaith dros nifer o flynyddoedd i roi hyblygrwydd wrth gyflawni ar draws y rhaglen gyfan.

8. Mae 17 mesur sy'n Wyrdd yn Chwarter 2. Dyma rai i'w nodi:

- **Cynnydd CNC ar gyflawniadau allweddol ar gyfer Prosiect Afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA)**
Rydym wedi cwblhau'r gweithgaredd hwn, gan ein bod wedi cyhoeddi diweddarriad i'r canllawiau cynllunio ddiwedd Gorffennaf a oedd yn egluro nifer o faterion ac wedi cymeradwyo cyhoeddi egwyddorion niwtraliaeth maethynnau ar ein gwefan. Er ein bod ar y trywydd iawn ar hyn o bryd i gyflawni cyfran o'n gweithgarwch carreg filltir diwedd blwyddyn, sef lleihau effaith maethynnau yn enwedig mewn afonydd ACA (a chyfrannu at sefydlu a darparu Cynlluniau Rheoli Maethynnau ar gyfer afonydd ACA), mae'n posibl y bydd yn anodd ei fesur. Hefyd, mae'r Byrddau Rheoli Maethynnau newydd gael eu sefydlu, yn dilyn newid Cadeiryddion yn sgil etholiadau Awdurdodau Lleol ym mis Mai. Erbyn hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau cyllid, ond mae'n annhebygol y bydd y cynlluniau yn eu lle a chyflawni'n llawn arnynt erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Ar hyn o bryd, rydym yn disgwl y byddwn yn Wyrdd ar ddiwedd y flwyddyn.
- **Cyflawni yn erbyn camau gweithredu y cytunwyd arnynt ar gyfer Blwyddyn 1 o 'Gyda'n Gilydd' (Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant)**
Rydym wedi cwblhau'r gweithgaredd hwn. Rydym wedi cychwyn 35% o gamau gweithredu arfaethedig Blwyddyn 1. Bu'n Rhwydweithiau yn dathlu amrywiaeth drwy hybu ymwybyddiaeth o ddigwyddiadau ar ein tudalennau Mewnrwyd a Yammer. Mae ein Harbenigwr Arweiniol Amrywiaeth a Chynhwysiant Cydraddoldeb, sydd newydd ei recriwtio, yn symud ymlaen i gyflawni'r Cynllun Gweithredu i gefnogi'r Strategaeth Gyda'n Gilydd. Oherwydd yr adeg yr ymunodd, efallai y bydd rhywfaint o oedi cyn cyflawni ar gyfer Chwarter 3, ond rydym yn rhagweld y byddwn yn dal i fyny ac y byddwn yn Wyrdd erbyn diwedd y flwyddyn.

- Cynnydd rhaglen Natur a Ni**

Ein carreg filltir ar gyfer y mesur hwn yw adrodd ar ddigwyddiadau chwarae yn ôl Cam 1; Trosolwg o ddigwyddiadau Cam 2, gan gynnwys cyfraniad grwpiau defnyddwyr allweddol; Adroddiad ar ddigwyddiadau gweledigaethol cychwynnol. Rydym wedi cwblhau'r gweithgaredd hwn ac rydym wedi cyhoeddi'r canfyddiadau o Gam 1 mewn dau adroddiad. Ni fydd ein carreg filltir ar gyfer y cyfnod adrodd nesaf, sef drafftio gweledigaeth, yn cael ei chwblhau ond bydd yn ôl ar y trywydd iawn yn Chwarter 4 gyda'r cynulliad dinasyddion yn drafftio'r weledigaeth gan ddefnyddio'r canfyddiadau ac adroddiad ymgysylltu Cam 2 a gynhyrchwyd yn Chwarter 3.

- Gofynnir i'r Bwrdd graffu ar yr Adroddiad Perfformiad Mewnol, gan nodi'r prif faterion isod. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn Atodiad 2.

